# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Medi 2019

Amser: 09.25

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat**

(09.25-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

**Dogfennau atodol:**

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30-09.50)

### 2.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y camau heb eu datrys o sesiwn y Pwyllgor ar Fynediad at Fancio a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P1) Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd

### 2.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Tim Yeowart, Rheolwr Gyfarwyddwr Grand Union Trains Ltd

(Tudalennau 3 - 5)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P2) Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd Grand Union Trains Ltd (Saesneg yn unig)

EIS(5)-22-19(P3) Ymateb gan Tim Yeowart Rheolwr Gyfarwyddwr Grand Union Trains Ltd (Saesneg yn unig)

**2.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg**

(Tudalennau 6 - 20)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P4) Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg

**2.4 Llythyr at y Cadeirydd gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch yr Economi Sylfaenol**

(Tudalennau 21 - 23)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P5) Llythyr gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
EIS(5)-22-19(P6) Llythyr gan y Cadeirydd at Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**2.5 Llythyr at y Cadeirydd gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch Craffu ariannol yn ystod y flwyddyn ar y Portffolio Economi a Thrafnidiaeth**

(Tudalennau 24 - 28)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P7) Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**2.6 Crynodeb o Strategaeth Gyfathrebu Trafnidiaeth Cymru**

(Tudalennau 29 - 49)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P8) Crynodeb o Strategaeth Gyfathrebu Trafnidiaeth Cymru 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020

**2.7 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch craffu ar waith Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**

(Tudalennau 50 - 53)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P9) Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**2.8 Llythyr at y Cadeirydd gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch Fframweithiau Polisi Cyffredin y DU**

(Tudalennau 54 - 58)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P10) Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

EIS(5)-22-19(P11) Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 4 Adroddiad Drafft: Mynediad at Fancio

(09.50-10.05) (Tudalennau 59 - 120)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P12) Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

**Egwyl**

(10.05-10.20)

## 5 Adroddiad Drafft: Gwefru Cerbydau Trydan

(10.20-10.35) (Tudalennau 121 - 143)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P13) Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

## 6 Adroddiad Drafft: Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

(10.35-10.50) (Tudalennau 144 - 189)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P14) Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

## 7 Papur cwmpasu – Datgarboneiddio – 2il bapur cwmpasu yn dilyn ymgynghoriad

(10.50-11.00) (Tudalennau 190 – 217)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P14) Papur cwmpasu (Saesneg yn unig)

## 8 Papur cwmpasu – Taliadau cadw mewn contractau adeiladu

(11.00-11.15) (Tudalennau 218 – 224)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-19(P15) Papur cwmpasu (Saesneg yn unig)

**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Russell.george@cynulliad.cymru

16 Gorffennaf 2019

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch cam gweithredu o sesiwn 'Mynediad at Fancio' Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf. Mae'r cam gweithredu hwn yn ymwneud â'r rhesymau dros gau'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post a'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post. Rwy'n ymateb gan fod materion yn ymwneud â Swyddfa'r Post yn rhan o'm mhortffolio i.

Yn gyntaf, hoffwn atgoffa'r Pwyllgor nad yw materion yn ymwneud â Swyddfa'r Post wedi'u datganoli. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ariannu swyddfeydd post. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cymhorthdal ar gyfer rhwydwaith y swyddfeydd post. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y byddai £370 miliwn yn cael ei roi i gefnogi rhwydwaith hwn rhwng 2018 a 2021. Caiff £160 miliwn o'r arian hwn ei ddefnyddio i ddiogelu swyddfeydd post cymunedol 'siop olaf yn y pentref'. Mae'r £210 miliwn sy'n weddill yn cael ei fuddsoddi er mwyn parhau i foderneiddio'r rhwydwaith.

Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i swyddfeydd post lleol am ein bod yn cydnabod eu gwerth cymdeithasol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym yn dal i gydnabod bod swyddfeydd post lleol yn cynnig ystod o wasanaethau sy'n bwysig i gymunedau, megis mynediad at wasanaethau bancio sylfaenol a'r cyfle i wirio balans cyfrifon banc, tynnu arian parod am ddim a thalu i mewn arian parod neu sieciau. Rydym hefyd yn cydnabod na all swyddfeydd post lleol gymryd lle banciau lleol. Er enghraifft, ni all staff swyddfeydd post roi cyngor i gwsmeriaid ar sut i reoli eu cyfrifon banc.

Roedd y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post ar waith rhwng 2002 a 2005. Ei nod oedd ariannu'r swyddfeydd post lleol sy'n gwasanaethu'r 125 o gymunedau mwyaf ynysig a'r 125 o gymunedau mwyaf difreintiedig, fel y nodwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar y pryd. Gwnaeth y Gronfa Ddatblygu roi grantiau cyfalaf o hyd at £50,000 i 99 o swyddfeydd post. Y cyfanswm a ddyfarnwyd o dan y Gronfa oedd £4.2 miliwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Ionawr 2009, yn dilyn ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i ailagor y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post, sefydlwyd y Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post.  Gwnaeth y Gronfa Arallgyfeirio roi grantiau cyfalaf ar ddwy lefel; grantiau bach o hyd at £5,000 a grantiau mwy o faint o hyd at £25,000. Roedd y grantiau'n gallu cael eu defnyddio i wella ochr fanwerthu busnes gweithredwr y swyddfa bost. Nid oedd modd defnyddio'r grantiau i wella unrhyw elfen o fusnes y swyddfa bost a oedd eisoes yn rhan o gymhorthdal Llywodraeth y DU ar gyfer y rhwydwaith. Caewyd y Gronfa Arallgyfeirio i ymgeiswyr newydd ym mis Tachwedd 2013. Cyhoeddwyd y dyfarniadau olaf ym mis Mai 2014 a chafodd y taliadau olaf eu gwneud ym mis Mawrth 2015. Darparodd y Gronfa grantiau gwerth £6.66 miliwn i 442 o swyddfeydd post ar draws Cymru.

Cafodd y Gronfa ei chau am sawl rheswm. Roedd ansawdd y ceisiadau'n gostwng. Roedd mwy a mwy o geisiadau'n dod i law gan swyddfeydd post a oedd eisoes wedi elwa ar y Gronfa, ac roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ei hagenda foderneiddio a oedd yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer gwella swyddfeydd post ar draws y DU.

Fe wnaeth Jeff Cuthbert AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd, gwrdd â chynrychiolwyr o Post Office Limited (POL) a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2014.   Yn y cyfarfod hwn, gofynnwyd iddo ystyried ailagor y Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru'n gorfod ystyried ei blaenoriaethau'n ofalus gan fod cyllidebau'r sector cyhoeddus bellach yn lleihau. Gwahoddodd POL i gyflwyno cais i ailagor y Gronfa Arallgyfeirio gan eu hatgoffa mai blaenoriaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru oedd trechu tlodi.

Ym mis Awst 2014, cyflwynodd POL gais byr i'r Gronfa Arallgyfeirio barhau. Ni wnaeth y cais hwn amlinellu sut y byddai parhau i ariannu swyddfeydd post yn helpu i drechu tlodi. Felly, ni ystyriwyd ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid ac fe'i gwrthodwyd yn ffurfiol ym mis Medi 2014.

Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers hynny. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i ailgyflwyno cyllid ar gyfer swyddfeydd post yng Nghymru. Mae hyn yn parhau'n fater i Lywodraeth y DU.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

Eitem 2.2

Ian Yeowart
Managing Director
Grand Union Trains Limited
Riverside Lodge
Fulford
York
YO19 4RB

29 July 2019

Dear Ian ,

Thank you for your letter dated 19 July following up on our meeting. I was very interested to hear your project to increase train services between south Wales and London. I am sure the other members of the Committee would be similarly interested in your plans.

The National Assembly is now in recess until 15 September, as you can imagine, the committees work programme is set out quite far in advance and our sessions are currently planned until the end of November.

However if you were to supply a short paper outlining your plans, including a proposed time line, I can share this with the Committee and we could make some time to discuss it at one of our September meetings. Our first meeting in the new term will be on the 19 September. We would need to receive your paper by the 9 September to include it on the agenda for the 19 September.

Yours sincerely,

Russell George AM
Chair
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

## New express rail services between South Wales and London Paddington

***Background:***

Grand Union is an 'open access' train company, seeking to operate passenger train services outside the franchise system.

Previously new, successful open access services have been delivered on the East Coast Main Line by Grand Central between Sunderland – York and London King's Cross, and Bradford – Doncaster – London King's Cross. A new service has also been approved between Blackpool and London Euston – due to begin in 2020.

***Proposal:***

Following discussions with the Welsh Government, Assembly members, Transport for Wales and Keolis/Amey, the initial application to provide new express services between Cardiff and London Paddington has been revised and extended to Llanelli. Due to the lack of electrification west beyond Cardiff, the timeline for introduction of services has been altered.

Initially services are now planned to operate every 2 hours between Cardiff and London Paddington using fully electric Class 91 trains off the East Coast Main Line and 7 passenger vehicles. These trains in 7 coach formation have similar performance characteristics to the new Hitachi trains used on the route. First train from Cardiff @ 0635, last train @ 1835. First train from London @ 0835, last train @ 2035.

Services would begin in May 2021.

The Class 91s would then be replaced with a new build fleet of Hitachi 802 trains – bi-mode – which will enable them to operate to Llanelli under diesel power. The service would then also be increased to hourly. First train from Llanelli @ 0525, last train @ 1925. First train from London @ 0835, last train @ 2135.

Extended services would begin in May 2023.

The entire operation would be based in South Wales with around 150 new full-time jobs created by the service arrival once the full service is operational. Further employment will be created in maintenance and support services.

Investment is also planned at Severn Tunnel Junction in further extended car parking, motorway 'junction' upgrade and improved passenger facilities.

Trains would also carry express light freight, including urgent biological items for the NHS. Partners at Intercity Railfreight are developing further this part of the proposal with the aim of providing a parcel concentration hub on the route.

***Process for approval:***

Grand Union is currently consulting with the industry about its application which has been made to the Office of Rail and Road (ORR). The ORR has specific timescales on decision making, and a decision is expected early in 2020.

Support from political and commercial bodies is very significant during the decision-making process.

**GRAND UNION TRAINS LIMITED**
Riverside Lodge, Fulford, YORK, YO19 4RB
Registered Office: Fulford Lodge, 1 Heslington Lane, Fulford, YORK, YO10 4HW
A Company registered in England & Wales No: 11408012

www.granduniontrains.com

**Timeline:**

ORR positive decision Early 2020

April 2020 – April 2021 Mobilisation for start of operations

May 2021 initial service start – 2 hourly between Cardiff and London Paddington

Target journey time Cardiff – London Paddington 1 hour 45 minutes

Stopping pattern:

Cardiff Central

Cardiff parkway (when opened)

Newport

Severn Tunnel Junction

Bristol Parkway

London Paddington

May 2023 service extended to Llanelli and becomes hourly. New train fleet introduced

Target journey time Llanelli – London Paddington 2 hours 45 minutes

Target journey time Swansea – London Paddington 2 hours 35 minutes

Stopping pattern:

Llanelli

Swansea

Cardiff Central

Cardiff Parkway (when opened)

Newport

Severn Tunnel Junction

Bristol Parkway

London Paddington

**GRAND UNION TRAINS LIMITED**
Riverside Lodge, Fulford, YORK, YO19 4RB
Registered Office: Fulford Lodge, 1 Heslington Lane, Fulford, YORK, YO10 4HW
A Company registered in England & Wales No: 11408012
www.granduniontrains.com

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams, AC
Y Gweinidog Addysg

31 Gorffennaf 2019

Annwyl Kirsty,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21**

Yn unol â'n harfer arferol, rydym yn ysgrifennu cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Gweinidog Cyllid wedi ysgrifennu at holl bwyllgorau'r Cynulliad i roi gwybod i ni bod ansicrwydd yn parhau ynghylch amseriad proses y gyllideb eleni tra bod cynlluniau ar gyfer Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU heb eu cadarnhau. Yn y cyfamser, roeddem o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe baem yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl ynghylch y wybodaeth ysgrifenedig y byddem yn ei chroesawu mewn pryd ar gyfer y sesiynau y byddwn yn eu cynnal gyda chi, p'un a ydynt yn cael eu cynnal fel arfer (yn ystod tymor yr hydref 2019), neu'n hwyrach (yn ystod tymor y gwanwyn 2020).

Bydd y Clerc yn cysylltu â'ch swyddogion i gytuno ar ddyddiadau ar gyfer ein sesiwn tystiolaeth lafar, ac erbyn pryd y byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig. Rydym yn cydnabod na fydd yn bosibl cadarnhau trefniadau nes bod rhagor o eglurder ynghylch sefyllfa Llywodraeth y DU. Byddwn yn cadw cymaint o hyblygrwydd ag y gallwn yn ein blaenraglen waith nes ein bod yn gwybod rhagor.


Fel y gwnaethpwyd yn y blynyddoedd diwethaf, bydd ein dull gweithredu yn seiliedig ar y pedair egwyddor sy'n sail i waith craffu ariannol da, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb. Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar faterion sy'n berthnasol i'n cylch gwaith. Er mwyn osgoi dyblygu diangen, byddwn hefyd yn gwahodd Aelodau Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i ymuno â ni ar gyfer ein gwaith craffu ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg - rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AC, Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw, er gwybodaeth. Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Bethan Sayed AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Gymraeg a Chyfathrebu, gan fy mod yn deall y bydd hi mewn cysylltiad i ofyn am wybodaeth am feysydd o ddiddordeb o fewn y portffolio hwnnw.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cc Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Bethan Sayed AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**ATODIAD - CAIS AM WYBODAETH YSGRIFENEDIG CYN CRAFFU AR Y GYLLIDEB DRAFFT**

Rydym yn gofyn am wybodaeth am y meysydd trawsbynciol canlynol, os nad ydyn nhw eisoes wedi'u cynnwys yn naratif y gyllideb

## 1. Meysydd trawsbynciol

*1.1 Tryloywder cyflwyniad y gyllideb*

Y llynedd, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft yn dryloyw er mwyn hwyluso gwaith craffu llawn a thrylwyr. Yn hynny o beth, gofynnwn eto am esboniad naratif tryloyw (a darlunio rhifol) o'r canlynol:

- gostyngiadau / dileu neu godiadau / ychwanegiadau sy'n ymwneud â meysydd penodol o'r gyllideb ddrafft o gymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. grantiau'n cael eu lleihau neu'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl / yn cael eu cynyddu neu eu cyflwyno);
- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli (e.e. o gymryd y Grant Gwisg Ysgol fel enghraifft o'r flwyddyn 2018-19, gan fod yn glir bod hyn yn golygu bod y grant cyfan yn cael ei ddileu); a
- ble yn union y mae'r newid hwn yn cael ei wneud i'r gyllideb ddrafft, ac a fydd arian yn cael ei ddychwelyd i / ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i / o linellau cyllideb eraill.

*1.2 Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau Llinell Gwariant y Gyllideb (BEL)*

- Rydym yn gofyn am sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG), gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 (Mehefin 2019) ac esboniad arnynt.
- Rydym hefyd yn gofyn am ddadansoddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg 2020-21 a'r MEG dangosol ar gyfer 2021-22 (os yw ar gael) fesul Maes Rhaglen Gwario, Cam Gweithredu, a fesul Llinell Gwariant y Gyllideb (BEL), gyda dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20, rhagolwg allbynnau 2019-20 , ac allbynnau terfynol 2018-19 i gyd wedi'u cynnwys.
- Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb waelodlin ddiwygiedig at ddibenion cymharu, gofynnwn fod dyraniadau gwirioneddol y Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20

yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rhain, ynghyd ag esboniad ar y rhesymau dros ail-gyfrifo'r waelodlin.

*1.3 Blaenoriaethau addysg*

- Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg yn cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru, ac yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny, gan gynnwys:
  - Symud Cymru Ymlaen, y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2016-2021;
  - Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol
  - y deg blaenoriaeth addysg y cytunwyd arnynt rhwng y Gweinidog Addysg a Carwyn Jones, y Prif Weinidog ar y pryd ym mis Mehefin 2016 (a ailddatganwyd gan Kirsty Williams a Mark Drakeford, y Prif Weinidog newydd ym mis Rhagfyr 2018);
  - y deunaw prif flaenoriaeth a restrir yn y cytundeb rhwng y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg ym mis Rhagfyr 2018;
  - Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl - Cynllun Gweithredu.
- Asesiad wedi'i ddiweddaru gan y Gweinidog o ran i ba raddau y mae'n credu bod y MEG Addysg yn cynnwys yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol uchod, a gwybodaeth am unrhyw drafodaethau parhaus â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynglŷn â'r lefel angenrheidiol o adnoddau.
- Manylion ynghylch a wnaed unrhyw flaenoriaethu neu wahaniaethu pellach o ran dyrannu adnoddau rhwng y blaenoriaethau a'r camau gweithredu y cyfeiriwyd atynt uchod ac a yw'r Gweinidog yn bwriadu targedu adnoddau i fynd i'r afael ag unrhyw themâu cyson sydd wedi dod i'r amlwg ar draws y MEG Addysg yn ei gyfanrwydd.
- Manylion yr asesiad a wnaed o werth am arian a fforddiadwyedd pob un o'r galwadau uchod ar adnoddau a sut y bydd eu heffeithiolrwydd o ran costau yn cael ei fonitro.
- Manylion unrhyw ymarferion cost cyfle a gynhaliwyd o ran y galwadau uchod ar adnoddau.

*1.4 Monitro'r gyllideb*

- Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, gan nodi diffygion a gwargedion posibl, a chymryd camau adfer neu ddyrannu arian ychwanegol ar gyfer unrhyw ddiffygion.
- Manylion unrhyw newidiadau i'r MEG Addysg a ragwelir eisoes yn Ail Gyllideb Atodol 2019-20.

*1.5 Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd*

- Gwybodaeth am oblygiadau ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a sut mae'r Adran yn bwriadu rheoli unrhyw effaith negyddol ar gyllidebau o fewn y portffolio a / neu'n ceisio manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi.
- Gwybodaeth am
  - faint o arian yr UE y mae'r MEG Addysg 2019-20 wedi'i gael a'r swm y rhagwelir y bydd yn dibynnu arno yn 2020-21;
  - y symiau o gyllid yr UE sy'n ddiogel pe bai 'dim cytundeb' Brexit, ac arian yr UE nad yw'n ddiogel, yn ogystal ag esboniad ynghylch yr hyn y defnyddir y cyllid hwn ar ei gyfer.
- Manylion unrhyw gynllunio wrth gefn mewn perthynas â chyllid yr UE pe bai "dim cytundeb" Brexit.

*1.6 Costau deddfwriaeth*

- Manylion unrhyw ddyraniadau o fewn cyllideb 2020-21 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu diwygiadau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET), gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth sylfaenol.
- Manylion unrhyw ddyraniadau o fewn cyllideb 2020-21 a fwriadwyd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth sylfaenol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf o ran unrhyw gostau parhaus i'r MEG Addysg o weithredu deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad a'r Pumed Cynulliad hyd yma, ac unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer cyllideb 2020-21.

- Darpariaeth gyllidebol ar gyfer gweithredu *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018* a'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ehangach.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol Senedd y DU.
- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2020-21.

*1.7 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill*

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2019-2020, credwn y dylid cynnal Asesiad Effaith Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer y gyllideb ddrafft yn ei chyfanrwydd. O ran y MEG Addysg yn benodol, gofynnwn am:

- Wybodaeth am sut mae hawliau plant, cydraddoldebau (gan gynnwys cydraddoldeb rhywiol), cynaliadwyedd a'r Gymraeg wedi'u hystyried mewn dyraniadau cyllideb.
- Copi o'r Asesiad Effaith Hawliau Plant (CRIA) a wnaed gan yr Adran Addysg i lywio'r dyraniadau yn y MEG Addysg drafft ar gyfer 2020-21. Os na chynhaliwyd Asesiad Effaith Hawliau Plant penodol, y rhesymau dros hyn a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig amgen.
- Gwybodaeth am yr ystyriaeth o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wrth ddyrannu o ran llinellau cyllideb o fewn y MEG Addysg.
- Manylion a / neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y MEG Addysg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldebau, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

## 2. Meysydd penodol

Rydym yn gofyn am wybodaeth am y meysydd penodol a ganlyn, os nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y sylwebaeth ar bob Cam Gweithredu.

*2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion*

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal ymchwiliad i gyllid ysgolion ac wedi cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2019. Yn ychwanegol at ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw, byddem yn croesawu - unwaith y bydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 ar gael - asesiad wedi'i ddiweddaru o ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2020-21 ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

*2.2 Cyllid ar gyfer gwella ysgolion*

- Dadansoddiad manwl o sut y dylid dyrannu a defnyddio elfen flynyddol y buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn mewn safonau ysgolion yn 2020-21.
- Cadarnhad ynghylch a fu unrhyw newid i'r dadansoddiad o'r cyllid Codi Safonau Ysgolion gwerth £25.5 miliwn yn 2019-20 (a ddarperir yn **Atodiad D o bapur y Gweinidog ym mis Tachwedd 2018**).
- Diweddariad ar sut mae'r £100 miliwn yn cael ei wario drwy gyfnod y Cynulliad hwn a'r hyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.
- Yn unol ag Argymhelliad 31 o'n hadroddiad *Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol*, diweddariad ar **Atodiad E o bapur y Gweinidog ym mis Tachwedd 2018** a oedd yn rhestru BELs yn y MEG Addysg sydd yn bennaf yn ariannu codi safonau ysgolion (ar sail unigol ac ar sail symiau cyfanredol);
- Gwybodaeth ynghylch a oedd unrhyw newidiadau i'r dadansoddiad o'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol 2019-20 (RCSIG) a ddarparwyd yn **Llythyr y Gweinidog dyddiedig 12 Mawrth 2019**, ac amcanestyniad, os yw ar gael, o ddadansoddiad 2020-21.

*2.3 Lleihau effaith amddifadedd a thlodi*

- Gwybodaeth am sut mae'r MEG Addysg yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd a thlodi a'i effaith ar gyflawniad addysgol.
- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG), gan gynnwys:
  - faint o arian ychwanegol y mae'r penderfyniad i drwsio dyraniadau ysgolion yn 2018-19 a 2019-20 yn ôl niferoedd dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), ym mis Ionawr 2016, wedi'i greu ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion o'i gymharu â defnyddio PLASC 2017 neu PLASC 2018.
  - faint o ysgolion oedd â niferoedd dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim uwch yn 2017 neu 2018 o gymharu â 2016, ac felly wedi cael llai o arian y Grant Datblygu Disgyblion nag y byddent wedi'i gael pe bai'r data diweddaraf wedi'i ddefnyddio?

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer cronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion, sut mae'n cael ei ddyrannu a'i dosbarthu, gan gynnwys faint o deuluoedd sy'n elwa.

*2.4 Y gweithlu addysg*

- Manylion dyraniadau'r gyllideb i ariannu:
  - diwygiadau Llywodraeth Cymru i Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA); a
  - datblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg.
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i'r MEG Addysg yn 2020-21 o ran y safonau proffesiynol i athrawon sydd mewn grym ers mis Medi 2017.
- Manylion y ddarpariaeth gyllidebol i gyflawni'r flaenoriaeth o leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith diangen, gan gynnwys defnydd estynedig o reolwyr busnes.
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol o ran y flaenoriaeth i ddenu a chadw rhagor o ymgeiswyr o ansawdd da a graddedigion aeddfed o safon uchel i ddysgu drwy lwybrau mynediad newydd i'r proffesiwn.
- Gwybodaeth am unrhyw arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.
- Manylion y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol o ran y cynlluniau peilot athrawon cyflenwi clwstwr ac ystyriaeth barhaus arall o ddiwygiadau perthnasol.
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o ddatganoli cyflog ac amodau gwaith athrawon, gan gynnwys y cynlluniau diweddaraf i ariannu dyfarniad cyflog athrawon, a chostau pensiwn ychwanegol dilynol, o fis Medi 2019.

*2.5 Cwricwlwm i Gymru*

- Diweddariad ar gyllid i gefnogi cwblhau dyluniad y Cwricwlwm newydd i Gymru, a'i weithredu.
- Diweddariad ar sut mae'r cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio.

*2.6 Grant Gwella Addysg (EIG)*

- Gwybodaeth am lefel y Grant Gwella Addysg yn 2020-21 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Copi o'r fframwaith canlyniadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro effaith y Grant Gwella Addysg ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir i gonsortia rhanbarthol neu gan gonsortia rhanbarthol.
- Manylion y dyraniadau i bob consortia rhanbarthol ar gyfer pob blwyddyn er 2015-16 a'r dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2020-21.
- Cadarnhad o'r dibenion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Grant Gwella Addysg gael eu defnyddio ar eu cyfer ac a yw'r rhain wedi newid o gwbl ar gyfer 2020-21.
- Manylion am yr hyn y bwriedir defnyddio elfen Cyfnod Sylfaen yr EIG ar ei gyfer (h.y. p'un ai i weithio tuag at gymarebau staff uchelgeisiol yn unig neu a yw'n gyfystyr â chyllid craidd ar gyfer darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ac os felly, ar gyfer pa grwpiau oedran).

*2.7 Cefnogaeth i ddysgwyr o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

- Diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y dull o ariannu cefnogaeth i ddysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr - a fydd y cyllid grant o £8.7 miliwn sydd ar waith ym mhob blwyddyn, sef 2018-19 a 2019-20, yn dod i ben, ac a oes disgwyliad y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol o'u cyllidebau eu hunain?
- Gwybodaeth am sut mae defnydd o'r cyllid hwn yn 2018-19 a 2019-20, a'i effaith, wedi cael ei fonitro a'i werthuso.
- Cadarnhad - os yw'r cyllid trosiannol o £8.7 miliwn wedi dod i ben a bod disgwyl i wasanaethau gael eu hariannu o gyllidebau craidd awdurdodau lleol - p'un a gynhaliwyd Asesiad Effaith Hawliau Plant (CRIA) (os felly, a ellid darparu copi ohono).

*2.8 Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc*

- Gwybodaeth am y goblygiadau ariannol i'r MEG Addysg yn 2020-21 o ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad Cadernid Meddwl, a chamau gweithredu dilynol.
- Manylion ar sut mae unrhyw arian o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.

*2.9 Anghenion dysgu ychwanegol*

- Goblygiadau ariannol Deddf Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 yng nghyllideb ddrafft 2020-21 ac a yw'r costau gweithredu amcangyfrifedig yn aros yr un fath â'r rhai a gofnodwyd yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ym mis Ionawr 2018.
- Y ddarpariaeth o ran y gyllideb i gefnogi'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a phroffil wedi'i ddiweddaru o'r £20 miliwn a ddyrannwyd yn ystod y Cynulliad hwn.
- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y trefniadau ar gyfer ariannu hyfforddiant seicolegwyr addysg yng Nghymru ac a yw'r trefniant cyllid grant gyda Phrifysgol Caerdydd yn parhau cyhyd â 2020-21.
- Dadansoddiad o'r llinell gwariant yn y gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 o fewn y Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc.

*2.10 Maint dosbarthiadau babanod*

- Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod yn 2020-21, gan gynnwys;
  - faint o ysgolion, dosbarthiadau a disgyblion a fydd wedi elwa hyd at ddiwedd 2019-20
  - faint y disgwylir iddynt elwa yn 2020-21 a gweddill y Cynulliad hwn.
- Diweddariad ar ddyraniadau'r refeniw o £16 miliwn a'r £20 miliwn o gyfalaf yn y Cynulliad hwn.
- Arwydd o sut mae gwerth am arian y buddsoddiad mewn lleihau maint dosbarthiadau babanod yn cael ei asesu, gan gynnwys manylion y canlyniadau y ceisir eu sicrhau i ddangos ei lwyddiant.

*2.11 Lleoedd dros ben ac ysgolion bach / gwledig*

- Amlinelliad o'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y grant ysgolion bach a gwledig yn 2020-21.
- Diweddariad ar wariant y grant hyd yma, a dadansoddiad o sut y cafodd ei ddyrannu rhwng awdurdodau lleol.
- Arwydd o sut mae gwerth am arian y grant ysgolion bach a gwledig yn cael ei asesu, gan gynnwys manylion y canlyniadau sy'n cael eu ceisio i ddangos ei lwyddiant.

*2.12 Menter Ysgolion Bro*

- Manylion y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y Fenter Ysgolion Bro i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ysgolion a cholegau i helpu rhieni a phlant i ddysgu gyda'i gilydd.
- Manylion y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni o'r gwariant ar y flaenoriaeth hon.

*2.13 Estyn*

- Manylion dyraniad cyllideb Estyn ar gyfer 2020-21 o'r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda'r arolygiaeth ar ei lefelau cyllid gofynnol a sut mae'r rhain yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau i gyllideb Estyn neu i linellau cyllideb Llywodraeth Cymru o adroddiad yr Athro Donaldson sef, Arolygiaeth Dysgu, a chamau gweithredu dilynol.

*2.14 Cymwysterau*

- Manylion dyraniad y gyllideb i Gymwysterau Cymru yn 2020-21, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda'r rheolydd ar ei lefelau cyllido gofynnol ac a yw'r cyllid yn ddigonol i gyflawni'r dasg o adolygu cymwysterau sector mewn da bryd.

*2.15 Addysg cyfrwng Cymraeg*

- Manylion darpariaeth y gyllideb i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) awdurdodau lleol.
- Amlinelliad o sut mae'r Cam Gweithredu cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Cadarnhad a yw'r cyllid ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg yn parhau yn 2020-21 a beth yw'r canlyniadau a fwriadwyd o'r gwariant hwn.

*2.16 Gwaith ieuenctid*

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg i gefnogi Gwaith Ieuenctid, gan gynnwys:

- Dadansoddiad o'r £10 miliwn y cyfeiriwyd ato yn y **datganiad i'r cyfryngau ar 24 Mehefin 2019**.
- Esboniad o ba linellau cyllideb y mae'r dyraniadau ychwanegol wedi'u cydweddu â hwy, gan gynnwys dadansoddiad o'r cyllid a oedd yn gyfystyr â'r dyraniad presennol a'r hyn sy'n newydd.
- A fydd y cyllid a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2019 yn gylchol bob blwyddyn.
- Dyraniadau ar gyfer y grantiau canlynol, a gwybodaeth am y bwriad tymor hwy ar eu cyfer:
  - Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid;
  - Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS);
  - Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru);
  - Grant y Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO).
- Amlinelliad o sut mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o lywio'r penderfyniadau am y dyraniadau ar gyfer gwaith ieuenctid.

*2.17 Y cynnig gofal plant*

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r goblygiadau refeniw a chyfalaf i'r MEG Addysg o gynnig gofal plant Llywodraeth Cymru.

*2.18 Y Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen*

- Manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ganddi drosolwg o'r cyfraddau cyllido ar gyfer y cynnig Cyfnod Sylfaen 10 awr i'r blynyddoedd cynnar ledled Cymru ar gyfer y sector nad yw'n cael ei gynnal ac o'i gymharu â'r sector a gynhelir.
- Diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu'r berthynas rhwng cyfraddau cyllido ar gyfer gofal plant ar gyfer plant tair a phedair oed (o dan y cynnig Gofal

Plant) ac addysg blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant tair a phedair oed, a diweddariad ar y cynllun peilot yn Sir y Fflint.

- Esboniad o sut mae cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn y Grant Gwella Addysg (EIG) yn gysylltiedig â chyllid arall ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, ac a yw eu dibenion yn wahanol i'w gilydd.

*2.19 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth cyllideb ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd / a gymeradwywyd hyd yma, wedi'u dadansoddi yn ôl:
  - Crynodeb o'r gwariant a nifer y prosiectau a gyflawnwyd / a gwblhawyd ym Mand A.
  - Y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â Band B y rhaglen.
- Diweddariad ynghylch defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer Band B a'r effaith y bydd hwn yn ei chael ar yr arian sydd ar gael.

*2.20 Addysg bellach, Chweched Dosbarth a Dysgu Cymunedol i Oedolion*

- Manylion unrhyw gyllid sydd i'w ddarparu i sefydliadau addysg bellach i'w galluogi i baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.
- Manylion yr alwad ar gam gweithredu Addysg ôl-16 2020-21, i fodloni ymrwymiadau cyllido blwyddyn academaidd 2019/20 ar gyfer Chweched Dosbarth a sefydliadau addysg bellach.
- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf i sefydliadau addysg bellach ac unrhyw gyfyngiadau a osodir ar y cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.
- Manylion unrhyw ddyraniadau wedi'u neilltuo neu heb eu neilltuo i sefydliadau addysg bellach y tu hwnt i'w dyraniad craidd, yn benodol manylion unrhyw symiau a fwriadwyd i gefnogi darpariaeth iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, tâl addysgu a phensiynau.
- Manylion am y llinell gwariant yn y gyllideb lleoliadau arbenigol ôl-16, gan gynnwys ei phwrpas.
- Swm disgwyliedig y cyllid y bydd sefydliadau addysg bellach yn ei gael o ddarpariaeth / contractau dysgu yn y gwaith a darpariaeth / contractau cyflogadwyedd.

- Manylion dyraniadau cyflawn 2019/20 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau pob un o wyth cydran y dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, lwfans amddifadedd, teneurwydd y boblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, y lwfans cynnal a'r addasiad Dysgu Oedolion Cymru).
- Esboniad cam wrth gam o sut mae'r dyraniadau amser llawn a rhan-amser ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn cael eu cyfrif erbyn hyn, gan gynnwys y data demograffig, data'r cwricwlwm a data'r dysgwr y mae'r cyfrifiadau yn seiliedig arnynt.
- Copi o'r canllaw Tybiaethau Cynllunio Rhagolwg Ariannol Addysg Bellach diweddaraf a gyhoeddwyd i sefydliadau addysg bellach.

Rydym yn deall nad yw'r dyraniadau terfynol 2020/21 ar gyfer Chweched Dosbarth, addysg bellach a dysgu cymunedol oedolion yn cael eu gwneud tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. Fel ein dull gweithredu eleni, byddwn yn mynd ar drywydd y materion hyn pan benderfynir ar ddyraniadau blwyddyn academaidd 2020/21.

*2.21 Addysg uwch a chymorth dysgwyr ôl-16, gan gynnwys adnoddau ar gyfer benthyciadau myfyrwyr*

- Manylion dyraniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys manylion unrhyw arian sydd wedi'i neilltuo i'w ddyrannu i'r Cyngor, fel, ar gyfer Global Wales II, ymchwil, pensiynau (os o gwbl) ac ati. (rhoddir sylw i brentisiaethau gradd isod).
- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf a fydd ar gael i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau i'w gosod arno gan Lywodraeth Cymru.
- Tabl yn dangos y canlyniad o ran 2019-20, a'r gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol ar:
  - Grant Ffioedd Dysgu Israddedig Llawn Amser (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU)
  - Grant Cynnal a Chadw y Grant Ffioedd Dysgu Israddedig (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU)
  - Grant Cynnal a Chadw Israddedig rhan-amser (PTUG) (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU)
  - Elfen grant Cyllid Meistr (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU)
  - Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

  - Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru
  - Grantiau a lwfansau wedi'u targedu (gan fyfyrwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU)
  - Unrhyw eitemau cyllido eraill o fewn y cam gweithredu cefnogi dysgwyr Ôl-16 (rhoddir sylw isod i'r ddarpariaeth adnoddau benthyciad myfyriwr).
- Darpariaeth benthyciadau myfyrwyr wedi'u dadansoddi yn ôl:
  - DEL ac AME ar gyfer refeniw a chyfalaf, gyda'r naill a'r llall wedi'i rannu â symiau ariannol a symiau anariannol, gan gynnwys sylwebaeth yn egluro unrhyw symudiadau o gymharu â chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20.
- Rhagwelir darpariaeth benthyciadau myfyrwyr wedi'i ddadansoddi fesul symiau ar gyfer:
  - Ffi dysgu y Ffioedd Dysgu Israddedig Llawn Amser a gwariant ar y benthyciad cynhaliaeth a'r tâl Cyfrifeg a Chyllidebu Adnoddau (RAB)
  - Ffi dysgu y Ffioedd Dysgu Israddedig Rhan-Amser a thâl benthyciadau cynnal a chadw a thâl Cyfrifeg a Chyllidebu Adnoddau
  - Talu elfen benthyciad Cyllid Meistr a thâl Cyfrifeg a Chyllidebu Adnoddau
  - Talu elfen benthyciad doethuriaeth a thâl Cyfrifeg a Chyllidebu Adnoddau
- Amlinelliad o unrhyw effaith a gafodd penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Rhagfyr 2018 ar drin benthyciadau myfyrwyr yng nghyllid y sector cyhoeddus ar bolisi Cymru / Llywodraeth Cymru.
- Manylion unrhyw ddyraniad 2020-21 a fwriadwyd ar gyfer darparu prentisiaethau gradd; a manylion yr arian y byddai ei angen i ddysgu prentisiaid gradd pe na bai'r cynllun peilot yn parhau y tu hwnt i'r ymrwymiad cychwynnol o £20 miliwn.

*2.22 Addysg ôl-16 arall a Chymraeg mewn addysg*

- Manylion y cyllid i leoliadau arbenigol ôl-16 a'r defnydd ohonynt, os na chynhwysir hwy mewn man arall.
- Manylion cyllid cynllun peilot y Cyfrif Dysgu Personol.
- Manylion ynghylch cyllid ar gyfer dysgu troseddwyr, a manylion y ddarpariaeth y mae hon yn ei hariannu.

- Manylion y gyllideb Cymraeg mewn Addysg gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cenedlaethol.
- Y llinell gwariant y gyllideb (BEL) Cymraeg mewn Addysg gwreiddiol yng Nghyllideb Derfynol 2019-20 oedd £29.361 miliwn. Symudodd y BEL hwn i Brif Grŵp Gwariant y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ym mis Ionawr 2019. Ym mis Mehefin 2019 mae'r Gyllideb Atodol Gyntaf yn dangos bod y Cam Gweithredu wedi symud yn ôl i'r MEG Addysg, ond dim ond £14.325 miliwn a drosglwyddwyd o'r MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i'r BEL Cymraeg mewn Addysg o fewn y MEG Addysg – a symudodd y balans fel trosglwyddiad o fewn MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i mewn i linell gwariant y gyllideb y Gymraeg:
  - Pa weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiadau cyllid sydd wedi symud o Brif Grŵp Gwariant y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg, a pha weithgareddau sydd wedi aros o fewn MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol?
  - Beth oedd y rhesymeg dros rannu'r cyllid a gynhwyswyd yn flaenorol yn y BEL Cymraeg mewn Addysg rhwng dau Brif Grŵp Gwariant?

*2.23 Gwyddoniaeth ac arloesedd busnes;*

- Manylion ynghylch y gefnogaeth ar gyfer:
  - y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i swyddfa, gan gynnwys unrhyw arian ychwanegol sydd ar gael ar gyfer mentrau strategol / gweithredu polisi gwyddoniaeth
  - gweithgareddau ymchwil ac arloesi, yn enwedig gweithgaredd arloesi busnesau
  - y gwyddorau bywyd.

**Lee Waters AC/AM**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@cynulliad.cymru

31 Gorffennaf 2019

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf yn dilyn y sesiwn graffu ar 9 Mai.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi cytuno i ymgymryd â rhagor o waith ar yr Economi Sylfaenol. Bydd y pwyslais ar gaffael i ddechrau. Rwy'n edrych ymlaen at glywed am waith y Pwyllgor yn y meysydd hyn, ac yn arbennig gan fod caffael sy'n canolbwyntio ar leoedd yn agwedd allweddol ar fy null ehangach o weithredu'r Economi Sylfaenol.

Gwnaethoch holi am ein hymrwymiad o safbwynt llunio cynllun galluogi ar gyfer Economi Sylfaenol ac am amserlen gwaith o'r fath. Fy mlaenoriaeth ar hyn o bryd yw cyflawni mewn tri maes gweithgarwch penodol, ac nid llunio cynllun galluogi. Y meysydd hyn yw:

- Profi a threialu arbrofion newydd a blaengar drwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol.
- Datblygu cwmnïau lleol a sefydlog a'r 'canol coll'
- Ehangu a datblygu arferion gorau a phrif ffrydio'r gwersi o ddulliau llwyddiannus o greu cyfoeth yn lleol. Cydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ehangu cadwyni cyflenwi lleol a chadarn ym maes caffael cyhoeddus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r tri maes hyn, ynghyd â'm Bwrdd Cynghori ar yr Economi Sylfaenol, yn gosod y sylfeini posibl ar gyfer datblygu cynllun galluogi. Gallai'r gwaith yma ehangu a bydd yn seiliedig ar dystiolaeth a chasgliadau o'r tri maes gwaith hyn a'r gymuned ymarfer y mae'r Bwrdd a'r Gronfa yn anelu at ei sefydlu. Nid wyf, fodd bynnag, yn pennu amserlen bendant ar gyfer hyn gan mai'r flaenoriaeth gyntaf yw cyflawni a phrofi ymyriadau yn y meysydd a nodir uchod.

Yn gywir



**Lee Waters AC/AM**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Lee Waters AC
Dirpwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Gorffennaf 2019

Annwyl Lee,

Yn dilyn y sesiwn graffu gyda chi a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 9 Mai, cytunodd y Pwyllgor i wneud rhagor o waith ar yr Economi Sylfaenol. Yn y lle cyntaf, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar drefniadau caffael a byddwn yn cwmpasu ymchwiliad yn fuan ar gyfer tymor yr hydref.

Wrth i ni gynllunio ein dull gweithredu, rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cyhoeddi cynllun(iau) gweithredu ar gyfer y sector(au) sylfaenol. Yn ystod ein trafodaeth ar 9 Mai, gwnaethoch nodi y byddai trafodaeth yn y cabinet yn ystod y misoedd nesaf a dweud y byddai'r ymrwymiadau a oedd gennych i gynllun galluogi ar gyfer y sectorau sylfaenol gwahanol, fel y nodir yn y cynllun gweithredu economaidd, bellach yn gynllun integredig ar gyfer yr economi sylfaenol gyfan.

A ydych yn dal i ddisgwyl cyhoeddi cynllun integredig, neu gynllun tebyg, ac os ydych, pryd y bydd yn cael ei gyhoeddi?
Byddwn ni, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau yn y maes hwn, ac yn sicr yn eich gwahodd i drafod y materion hyn â'r Pwyllgor maes o law.

Dymuniadau gorau,

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/07240/19

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

16 Awst 2019

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf yn dilyn Sesiwn Graffu Ariannol yn ystod y Flwyddyn ar Bortffolio'r Economi a Thrafnidiaeth.

**Amcangyfrifon o Gostau a TAW Prosiect yr M4**

Mae amcangyfrifon o gostau prosiect yr M4 sydd wedi'u cyhoeddi wedi bod yn glir a chywir yn gyson, ac mae TAW a'r sylfaen prisiau wedi cael eu hystyried yn briodol hefyd. Cyhoeddwyd Adroddiadau Asesiad Economaidd ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus hefyd, a oedd yn craffu'n fanwl ar yr amcangyfrif o'r gost.

Mae'n arfer confensiynol, yn unol â chanllawiau 'Llyfr Gwyrdd' y Trysorlys, nad yw TAW yn cael ei gynnwys mewn asesiadau yn ystod camau datblygu prosiectau oherwydd natur braidd yn gylchol y taliad a'r ffaith ei bod yn anodd amcangyfrif y swm.

Yn ystod cam sy'n nes at benderfyniad buddsoddi terfynol, er enghraifft pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ydynt am wneud y Gorchmynion ai peidio, mae'n bwysig adnewyddu'r sylfaen prisiau i'r gwerth cyfredol, ac mae hefyd yn fwy priodol cynnwys TAW na ellir ei hadennill. Mae hyn yn caniatáu i ni ystyried y mater yn well yn erbyn blaenoriaethau gwario eraill y Llywodraeth.

Yn ystod cyfnod asesu'r Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn 2013, £998m oedd amcangyfrif o gost y Prosiect. Roedd y swm hwn wedi'i amcangyfrif cyn cyflwyno cwmpas ychwanegol ar ôl 2013, fel gwaith galluogi ar ddociau Casnewydd; gwelliannau i gyffyrdd a mesurau lliniaru amgylcheddol ychwanegol a oedd yn deillio o gysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd amcangyfrif o gost y cynllun, a ddiweddarwyd yn ystod yr Ymchwiliad, yn £1.321bn. Mae dadansoddiad o'r amcangyfrif hwnnw a'i hanes wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus, ac fe'u gwelir yn Atodiad A. Nid oedd y ffigur hwn yn cynnwys unrhyw TAW (boed modd ei hadennill neu beidio). Roedd y ffigur olaf a gafwyd, sef £1.57bn, yn cynnwys TAW na ellir ei hadennill (nid oedd TAW y byddai modd ei hadennill wedi'i chynnwys gan na fyddai hynny'n gost i Lywodraeth Cymru) ac addasiad o £44m a oedd yn ymwneud â'r costau a oedd wedi'u hysgwyddo'n barod ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 (gan eu bod wedi'u hysgwyddo'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

barod, ni fyddent yn wynebu unrhyw chwyddiant nac yn rhan o unrhyw wariant yn y dyfodol). Felly, ceir manylion am sut daethpwyd i'r ffigur o £1.57m yn y tabl yn Atodiad B.

**Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru**

Fel sydd wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl, bydd y Comisiwn yn adrodd ar ei ganfyddiadau dros dro cyn pen chwe mis i'w ffurfio. Rwy'n disgwyl y bydd yr adroddiad dros dro ar gael mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn galendr nesaf.

Bydd y Comisiwn yn cynnwys unigolion sydd ag amrywiaeth eang o arbenigedd perthnasol. Bwriad y dyhead hwn i'r Comisiwn gael "llygaid newydd" yw er mwyn chwilio am arferion gorau yn y DU ac yn rhyngwladol a'u rhoi ar waith, a hynny wrth ddatblygu atebion arloesol i'r problemau sy'n gysylltiedig â thagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd yn hytrach nag er mwyn allgau unrhyw un sydd wedi bod ynghlwm â Phrosiect yr M4 o'r blaen, naill ai o blaid neu yn erbyn y prosiect. Mae'r Arglwydd Burns yn bwriadu cael nifer fechan o aelodau ar y Comisiwn er mwyn canolbwyntio ar y gwaith, ac rwy'n hyderus y bydd yn cynnig tîm priodol a chytbwys, sy'n addas i gyflawni'r dasg dan sylw.

Er mai swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am weinyddu'r Comisiwn, bydd gan y Comisiwn awdurdod llawn i arwain a datblygu ei ganfyddiadau a'i argymhellion ei hun. Bwriedir caffael gwasanaethau technegol i gefnogi'r Comisiwn drwy Trafnidiaeth Cymru, er mwyn cael mwy o ymreolaeth a sicrwydd ansawdd.

Fel y trafodwyd, mae'r Arglwydd Burns eisoes wedi dangos ei fod yn fodlon cysylltu â Phwyllgorau'r Cynulliad. Un o dasgau cyntaf y Comisiwn fydd penderfynu ar gynllun ymgysylltu â rhanddeiliad a sut y bydd yn cynnwys pob parti yn ei waith, sy'n amrywio o'r cyhoedd i Weinidogion a chyrff fel Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, trafododd fy swyddogion y mater o sicrhau gwerth i'r dyfodol o'r data a baratowyd ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus Prosiect yr M4 mewn sesiwn graffu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gynharach ym mis Gorffennaf. Mae cyllideb wedi'i dyrannu i sicrhau y bydd Prosiect yr M4 yn cael ei 'ddirwyn i ben' yn y ffordd orau er mwyn cyflawni hyn. Er enghraifft, mae'r Arglwydd Burns eisoes wedi gofyn am adroddiad ar y sefyllfa o ran traffig ar hyn o bryd, yn ôl gwahanol gategorïau fel llif traffig dyddiol, llif oriau brig a manylion ynghylch o ble daw teithwyr/i ble maent yn mynd. Mae modd defnyddio data sydd eisoes wedi'u casglu ar gyfer Prosiect yr M4 i ateb yr ymholiad hwn.

**Ffordd Liniaru'r M4 – rhagor o wybodaeth am gyllid a chwmpas**

Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi bod yn glir nad yw'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r ffordd liniaru yn arwain at arian annisgwyl gwerth £1.4 biliwn. Ond, rydym wedi bod yn glir y bydd y Comisiwn, a sefydlwyd i ystyried y cyfleoedd a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd o amgylch Casnewydd, yn cael y cyfle cyntaf i gael yr arian, a fyddai wedi cael ei neilltuo fel arall i ddatblygu ei gynigion. Byddai unrhyw gynigion o'r fath yn dal i fod yn amodol ar yr ystyriaethau gwerth am arian a'r Achos Busnes arferol wrth gwrs.

Fel y dywedodd y Prif Weinidog, nid ydym am i waith y Comisiwn gael ei gyfyngu i ddylunio atebion a fyddai'n caniatáu iddo fodloni cyllideb benodol. Byddwn yn rhoi rhyddid i'r Comisiwn ymgymryd â'i waith, cyn asesu pa mor fforddiadwy yw ei argymhellion o ran rhoi sylw i heriau trafnidiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru.

Rwy'n disgwyl y bydd rhai o'r mesurau y bydd y Comisiwn yn eu hystyried yn cael effaith ehangach na dim ond ar de-ddwyrain Cymru o bosibl. Yn yr achos hwn, rwy'n disgwyl y bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion a fydd yn cyd-fynd â gwaith datblygu cyfredol Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru, sydd yn amserol iawn, wrthi'n cael ei datblygu ar

hyn o bryd. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod allbynnau'r Comisiwn yn rhoi sylw priodol i faterion rhanbarthol, gyda chysylltiad â'r rhai cenedlaethol hefyd.

**Ffordd Liniaru'r M4 – rhagor o wybodaeth am y rheswm dros y penderfyniad**

Mae penderfyniadau'r Prif Weinidog dros beidio â bwrw ymlaen â'r prosiect wedi cael eu nodi'n glir yn ei lythyr penderfyniad a gyhoeddwyd yma: [https://llyw.cymru/m4-y-coridor-o-amgylch-casnewydd](https://llyw.cymru/m4-y-coridor-o-amgylch-casnewydd). Roedd penderfyniad y Prif Weinidog yn seiliedig ar ofynion gwariant cyfalaf cyllidebau Llywodraeth Cymru, a'r ffaith fod y Prif Weinidog yn rhoi mwy o bwyslais na'r arolygydd Cynllunio ar yr effeithiau niweidiol y byddai'r prosiect yn eu cael ar yr amgylchedd.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod yng nghyd-destun y cynllun ers cyhoeddi'r Gorchmynion drafft ym mis Mawrth 2016, sef argyfwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, mwy o bryder ynghylch ansawdd, ac wrth gwrs, Brexit.

Roedd y broses o wneud penderfyniad yn lled-farnwrol ac yn fater o farn y Prif Weinidog ei hun, gan ystyried adroddiad yr Arolygydd a'r cyngor a oedd yn cyd-fynd â hynny gan swyddogion.

Ymgynghorodd y Prif Weinidog â'r Cabinet ar 29 Ebrill 2019 ynghylch blaenoriaethau gwario ehangach, yn hytrach na theilyngdod Prosiect yr M4, ac mae cofnodion y cyfarfod hwnnw bellach wedi cael eu cyhoeddi.

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir cyn i benderfyniad ynghylch y gorchmynion gael ei wneud, oherwydd arwyddocâd prosiect yr M4 i Gymru a'r teimladau cryf ar bob ochr i'r Cynulliad, unwaith y byddai'r Prif Weinidog wedi cwblhau'r broses gorchmynion, byddai'n dwyn trafodaeth a phleidlais ymlaen yn ystod amser llywodraeth. Dygwyd hyn ymlaen ar 25 Mehefin.

**Prentisiaethau**

Er mai mater i'r Gweinidog Addysg yw'r mater rydych chi'n ei godi, rydym wrthi'n cwblhau'r trefniadau cynllunio sy'n gysylltiedig â dechrau gwerthuso'r Radd-brentisiaeth. Bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn defnyddio'r dystiolaeth o'r gwerthusiad i helpu i fod yn sail ar gyfer eu dulliau gweithredu yn y dyfodol.

Dechreuodd y prentisiaid cyntaf ym mis Medi 2018. Mae prentisiaeth yn para tair blynedd fel arfer, felly bydd y garfan gyntaf yn dechrau graddio yn ystod haf 2021. Ni fydd nifer o'r canlyniadau i'r cyflogwr, i'r prentis ac i'r economi ehangach yn deillio tan ar ôl y cyfnod hwnnw. Ond, rydym yn disgwyl y bydd y gwerthusiad yn cyflwyno tystiolaeth gynnar sy'n dod i'r amlwg ynghylch effaith y rhaglen. Bydd y Gweinidog Addysg yn gwneud penderfyniad cyn diwedd tymor y llywodraeth hon, mewn ymgynghoriad â CCAUC, ynghylch blaenoriaethau a buddsoddiadau'r dyfodol. Yn ogystal â thystiolaeth o'r gwerthusiad, bydd tystiolaeth o'r galw (gan gynnwys gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) a'r gyllideb sydd ar gael, yn cael eu hystyried hefyd.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

**Atodiad A - Tracio Amcangyfrif o'r Gost Adeiladu yn ystod Ymchwiliad Cyhoeddus Prosiect yr M4**

**(£m, heb TAW, sylfaen prisiau Chwarter 4 2015)**

| **Elfen** | **Costau'r Cynllun (Rhagfyr 2016 Adroddiad Gwerthuso Economaidd Diwygiedig)** | **Costau ychwanegol net ffordd ymadael tua'r dwyrain** | **Costau'r Cynllun wedi'u Diweddaru (Mawrth 2017 Atodiad - Adroddiad Gwerthuso Economaidd Diwygiedig)** | **Costau ychwanegol net Gwaith Lliniaru Dociau Casnewydd, Gwaith Amddiffyn Pontydd ac ymestyn PLI** | **Costau'r Cynllun wedi'u Diweddaru (Rhagfyr 2017 Atodiad 2 - Adroddiad Gwerthuso Economaidd Diwygiedig)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Eitemau rhagarweiniol gan gynnwys Rheoli Traffig | £212.0 | +£1.1 | £213.1 | - | £213.1 |
| Gwaith ffordd | £268.0 | +£1.2 | £269.2 | - | £269.2 |
| Strwythurau | £296.9 | +£0.1 | £297.0 | +£17.5 | £314.5 |
| Tirweddu a gwaith amgylcheddol | £44.8 | +£0.1 | £44.9 | - | £44.9 |
| Gwaith gan awdurdodau eraill | £38.3 | +£0.5 | £38.8 | - | £38.8 |
| Costau tir a digolledu | £92.0 | +£0.3 | £92.3 | - | £92.3 |
| Risg a bias optimistiaeth | £141.3 | (+£1.5 llai £4.8) = -£3.30 | £138.9 | -£17.5 | £120.4 |
| **Amcangyfrif ar gyfer y Prosiect heb gynnwys TAW a chwyddiant** | **£1,093.2** | **-** | **£1,093.2** | **-** | **£1,093.2** |
| Costau Cyfnod Allweddol 4 | £22.0 | Amh. | £22.0 | +£22.0 | £44.0 |
| Ailddosbarthu ac ailwampio Cyffordd Caerllion [1] gan gynnwys bias optimistiaeth) | £16.2 | Amh. | £16.2 | - | £16.2 |
| Gwaith Dociau Casnewydd | - | - | - | +136.3 | £167.5 |
| Gwaith Dociau Casnewydd - Risg ac Argyfyngau | - | - | - | +£31.2 | |
| **Cyfanswm y Costau** | **£1,131.3** | **-** | **£1,131.3** | **+£189.5** | **£1,320.8** |

**Atodiad B – Dadansoddiad o'r dyfynbris diwygiedig o £1.57bn**

| | **Prisiau 2015** | **Prisiau 2019** |
|---|---|---|
| Sylfaen Prisiau | 1,321 | |
| Llai costau cyfnod allweddol 4 | (44) | |
| **Gwariant Diwygiedig** | **1,277** | **1,382** |
| Ychwanegu TAW na eillir ei hadennill | 170 | 184 |
| **Cyfanswm Diwygiedig (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill)** | **1,447** | **1,566** |

Eitem 2.6

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Crynodeb o'n Strategaeth Gyfathrebu

## 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Ein cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd | 4 |
| 3 | Ein personoliaeth a thôn ein llais | 5 |
| 4 | Ein cynulleidfaoedd allweddol | 6 |
| 5 | Blaenoriaethau negeseuon allweddol | 7 |
| 6 | Ein hamcanion cyfathrebu strategol | 9 |
| 7 | Ein strategaeth frandio a marchnata | 11 |
| 8 | Ein strategaeth cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â chydweithwyr | 14 |
| 9 | Ein strategaeth cysylltiadau'r cyfryngau | 17 |
| 10 | Ein strategaeth cysylltiadau'r llywodraeth a materion cyhoeddus | 19 |
| 11 | Ein strategaeth ymgysylltu cymunedol | 20 |

# 1. Cyflwyniad

Fel sefydliad ifanc, mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn llywio gweledigaeth Llywodraeth Cymru o rwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o safon uchel yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu rhwydwaith trafnidiaeth y mae Cymru'n falch ohono.

Er bod ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn glir, mae angen inni nawr sefydlu a datblygu ein brand a'n dulliau ymgysylltu, gan gychwyn gyda'r rheilffyrdd ac yna fel sefydliad amlfodd wrth i'n cylch gwaith ehangu.

Ein hamcanion cyfathrebu hirdymor yw:

- Gofalu bod cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn a bod ganddyn nhw lais yn natblygiad Trafnidiaeth Cymru
- Bod ein gweithwyr yn falch o fod yn rhan o deulu Trafnidiaeth Cymru a'u cyfraniad at gyflawni ein hamcanion
- Creu brand hollol ddwyieithog sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, brand dibynadwy sy'n cael ei barchu gan ein cwsmeriaid allweddol ac sy'n rhan allweddol o fywyd y genedl
- Cael ein cydnabod fel sefydliad arloesol o safon byd
- Bod ein cynulleidfaoedd allweddol yn deall ein gwerth strategol a'n heffaith ar Gymru a'i heconomi
- Dangos ein bod yn cyflawni polisïau Llywodraeth Cymru yn ogystal â'n heffaith ar bob cwr o Gymru
- Bod ein brand yn aelod parchus o deulu brand Cymru
- Meithrin perthynas effeithiol, dibynadwy a chydweithredol â'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid a grwpiau buddiant
- Datblygu brand y 'Metro' ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn ategu brand ehangach Trafnidiaeth Cymru.

Lewis Brencher
*Cyfarwyddwr Cyfathrebu*
*Trafnidiaeth Cymru*

## 2. Ein cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd

### 2.1 Ein cenhadaeth

Mae Trafnidiaeth Cymru'n bodoli er mwyn cadw Cymru i symud yn ddiogel trwy gyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, cyngor arbenigol a buddsoddi yn ein seilwaith

### 2.2 Ein gweledigaeth

Creu rhwydwaith trafnidiaeth y gall Cymru ymfalchïo ynddo.

### 2.3 Ein gwerthoedd

Meithrin ymddiriedaeth ein cwsmeriaid, gweithwyr a rhanddeiliaid sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd:

| Ein gwerthoedd | Sut hoffem i'n cwsmeriaid deimlo | Sut hoffem i'n gweithwyr deimlo | Sut hoffem i'n rhanddeiliaid deimlo |
|---|---|---|---|
| **Bod yn ddiogel**<br>▪ Iechyd<br>▪ Diogelwch<br>▪ Llesiant | Llawn ymddiriedaeth | Yn gyfrifol | Wedi'u sicrhau |
| **Bod gyda'r gorau**<br>▪ Perfformiad o'r radd flaenaf<br>▪ Bywiog ac yn mynd amdani | Llawn edmygedd | Yn falch | Yn falch |
| **Bod yn gadarnhaol**<br>▪ Yr agwedd gywir<br>▪ Gallu gwneud, parod i wneud | Yn hyderus | Wedi'u grymuso | Wedi'u clywed |
| **Bod yn gysylltiedig**<br>▪ Mentro<br>▪ Rhwydweithio | Teimlo wedi eu cynnwys | Teimlo wedi eu cynnwys | Teimlo wedi eu cynnwys |
| **Bod yn deg**<br>▪ Trin pobl yn dda<br>▪ Uniondeb<br>▪ Cydraddoldeb | Teimlo wedi'u gwerthfawrogi | Teimlo wedi'u clywed | Teimlo wedi'u gwerthfawrogi |
| **Creu llwyddiant ar y cyd**<br>▪ Brwd o blaid y fargen orau | Llawn cyffro/ ysbrydoledig | Teimlo wedi eu cynnwys | Teimlo wedi eu cynnwys |

# 3. Ein personoliaeth a thôn ein llais

3.1 Bydd ein strategaeth gyfathrebu yn seiliedig ar ein pedair o nodweddion personoliaeth allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn ein canllawiau brand:

- Dynol
- Gonest
- Diddorol
- Defnyddiol

Bydd nodweddion ein personoliaeth yn llywio cywair ein cyfathrebiadau yn ogystal â sut rydyn ni'n cyfathrebu. Mae ein canllawiau brand yn cynnwys manylion pellach am bersonoliaeth brand a thôn llais Trafnidiaeth Cymru. Rydyn ni'n diweddaru ein canllawiau brand (gweler Atodiadau) yn rheolaidd yn seiliedig ar syniadau cynulleidfaoedd allweddol.

## 4. Ein cynulleidfaoedd allweddol


4.1 Nod Trafnidiaeth Cymru yw ennill ei blwyf fel sefydliad arloesol o safon byd, ac yn y blynyddoedd nesaf, byddwn yn adeiladu cydnabyddiaeth o'r brand ymhlith ein cynulleidfaoedd allweddol. Byddwn yn teilwra ein cynnig a'n negeseuon er mwyn ennyn diddordeb ein cynulleidfaoedd allweddol ac apelio at rai sy'n newydd i ni.


Byddwn yn meithrin dealltwriaeth o'n cynulleidfaoedd allweddol yn ogystal â nodweddion y brand a fydd yn sefydlu ac yn adeiladu ar ein hygrededd.

4.2 Mae ein cynulleidfaoedd allweddol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Allanol** | Cwsmeriaid<br>Pobl Cymru<br>Pobl y gororau (yn achos trenau)<br>Busnesau<br>Cyflenwyr<br>Gohebwyr, dadansoddwyr a sylwebyddion<br>Gweithwyr proffesiynol a sefydliadau'r diwydiant trenau<br>Yr Undeb Ewropeaidd (adolygu gofynion ERDF y prosiect) |
| **Llywodraeth** | Gweinidogion Llywodraeth Cymru<br>Llywodraethau Cymru a'r DU<br>Llywodraeth Leol |
| **Gwleidyddol** | Aelodau Cynulliad<br>Aelodau Seneddol |
| **Rhanddeiliaid** | Lleol<br>Cenedlaethol<br>Undebau llafur<br>Sefydliadau partner<br>Rheoleiddwyr |
| **Mewnol** | Gweithwyr<br>Staff ar secondiad Llywodraeth Cymru<br>Ymgynghorwyr<br>Contractwyr<br>Cyfarwyddwyr Anweithredol<br>Gweithwyr sefydliadau partner |

## 5. Blaenoriaethau negeseuon allweddol




Creu rhwydwaith trafnidiaeth y mae pobl yn falch ohono
Diddorol
Dynol
Defnyddiol
Gonest
Sut
Cwsmeriaid
Rhanddeiliaid a Chymunedau
Cydweithwyr
Partneriaid
Pwy
Cyfathrebu Mewnol ac Ymgyrchoedd
Cyfryngau Cymdeithasol a Materion Cyhoeddus
Busnes Llywodraeth a Materion Cyhoeddus
Cyfryngau
Brand a Marchnata
Beth
Arolygon Cydweithiwr
Teimlad Cyfryngau Cymdeithasol
Mewnwelediadau defnyddwyr
Arolygon Rhanddeiliaid
Mesurau

## 6. Ein hamcanion cyfathrebu strategol

6.1 **Ein cenhadaeth cyfathrebu**

Er mwyn creu brand Trafnidiaeth Cymru y gall pobl ymddiried ynddo, rhaid inni gydnabod bod ein brand yn adlewyrchiad o'r penderfyniad a wnawn fel sefydliad yn y pen draw, ac mai dim ond rhan o ddatblygiad ein brand yw'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu i'n cwsmeriaid, ac felly'r gwaith a wnawn ym maes cyfathrebu. Law yn llaw â chyflwyno ein hamcanion sefydliadol, gallwn helpu i ddatblygu ein brand trwy gael cysylltiadau cyfathrebu dynol a gonest sy'n ennyn diddordeb ein cwsmeriaid, cydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ledled teulu Trafnidiaeth Cymru.

6.2 Byddwn yn cyflawni ein cenhadaeth gyfathrebu strategol o greu brand y gall pobl fod yn falch ohono drwy'r ffrydiau gwaith canlynol, pob un yn canolbwyntio ar ein grwpiau cynulleidfaoedd allweddol:

- Brandio a marchnata
- Cyfathrebu ac ymgyrchu mewnol
- Cysylltiadau cyfathrebu
- Cysylltiadau'r llywodraeth a materion cyhoeddus
- Ymgysylltu cymunedol a'n gwaith cynghori ein hunain

6.3 **Brandio a marchnata**

Byddwn yn adeiladu a datblygu brand dwyieithog Trafnidiaeth Cymru ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno'n gyson ar draws ein holl faes gweithgarwch, gan sicrhau ei fod yn dod yn rhan eiconig o deulu brand Cymru yn ogystal â rhan gadarnhaol o wead bywyd y genedl. Byddwn yn creu brand y gall pobl Cymru fod yn falch ohono trwy gynllun da a chyflwyno safonau ein brand.

Byddwn yn dangos sut rydyn ni'n cyflawni yn erbyn amcanion polisi Llywodraeth Cymru trwy ddatblygu stori glir yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â'r meysydd polisi eraill sy'n rhan o gylch gwaith Trafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cyflwyno ymgyrchoedd penodol ar sail yr amcanion polisi hyn, a lle mae gennym gylch gwaith gan Lywodraeth Cymru i gyflawni prosiectau penodol.

6.4 **Cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â chydweithwyr**

Byddwn yn meithrin perthnasau cadarnhaol a chynhwysol â chydweithwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n falch o fod yn rhan o deulu Trafnidiaeth Cymru. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddatblygu cyfleoedd cadarnhaol i rannu gwybodaeth a sicrhau bod gan weithwyr a phartneriaid cyflenwi lais wrth

siapio'r sefydliad. Byddwn yn creu adnoddau a diwylliant i sicrhau bod perthynas agored, gydweithredol a chlir yn bodoli rhwng cydweithwyr a thimau ledled y sefydliad, ac yn cefnogi arweiniad gweladwy ac atebol.

6.5 **Cysylltiadau'r cyfryngau**

Byddwn yn credu brand cyfarwydd a dibynadwy ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n adlewyrchu ein personoliaeth fel sefydliad gonest, clir, defnyddiol a dynol. Byddwn yn adlewyrchu ein parodrwydd i drawsnewid gwasanaethau cyn gynted â phosib. Byddwn yn cynyddu'r sylw cadarnhaol yn y cyfryngau er mwyn helpu i gyfleu a chyfathrebu newid yn ogystal â meithrin naratif, strwythur a thôn llais clir yn gall pobl uniaethu â nhw, eu deall, ac ymfalchïo ynddyn nhw. Byddwn yn adeiladu ac yn datblygu perthynas gref â phartneriaid yn y diwydiant, rhanddeiliaid a newyddiadurwyr.

6.6 **Cysylltiadau'r llywodraeth a materion cyhoeddus**

Byddwn yn hyrwyddo enw da Trafnidiaeth Cymru ac yn meithrin ymddiriedaeth ym mrand Trafnidiaeth Cymru gyda Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ehangach, Aelodau Seneddol a chynrychiolwyr etholiadol yn fwy eang. Byddwn yn parhau i feithrin ein perthynas â Gweinidogion Llywodraeth Cymru trwy sicrhau ein bod yn cyflawni eu hamcanion trwy gyfathrebu, cefnogi ac ymgysylltu'n effeithiol. Byddwn yn helpu Llywodraeth Cymru i gyfathrebu ac ymgysylltu ag Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol Cymru yn San Steffan am bynciau gweithredol sy'n ymwneud â Trafnidiaeth Cymru a'n partneriaid cyflenwi.

6.7 **Cynghori ac ymgysylltu cymunedol**

Nid dim ond ein teithwyr ddylai elwa ar ein gwasanaethau. Dylent hefyd gael effaith gadarnhaol ar yr economïau a'r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethu, a'r unig ffordd o wneud hyn yw trwy gydweithio â'r economïau a'r cymunedau hynny.

Fe wnaethom gydweithio â'n Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a grwpiau cymuned eraill er mwyn datblygu ein Gweledigaeth Rheilffyrdd Cymunedol sy'n amlinellu ein hymrwymiadau o 2019 ymlaen. Bydd Trafnidiaeth Cymru'n creu panel cynghori a fydd yn rhoi syniad o sut rydyn ni'n cyflawni ein hymrwymiadau. Bydd ein gwaith cynghori ehangach yn cynnig llwybrau ymgysylltu clir a hygyrch i'n defnyddwyr, rhanddeiliaid a grwpiau buddiant.

Hefyd, byddwn yn ystyried sut i gynnwys ein strwythurau ymgysylltu cyfredol yn ein fframwaith cynghori newydd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu clir a thryloyw ar draws ein cyfrifoldebau cylch gwaith cyfredol.

6.8 **Strategaethau manylach**

Rydyn ni wedi datblygu strategaethau manwl ar gyfer pob ffrwd waith gan ddefnyddio adnodd cynllunio OASIS y Government Communication Service.

# 7. Ein strategaeth frandio a marchnata

7.1 Creu brand y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddi, gan sicrhau ei fod yn rhan uchel ei barch o frand teulu Cymru ac yn rhan gadarnhaol o wead bywyd y genedl. Byddwn yn adeiladu brand Trafnidiaeth Cymru trwy gynllunio a dylunio da a thrwy gymhwyso a chynnwys ein safonau brand yn gyson.

7.2 Mae Trafnidiaeth Cymru yn sefydliad ifanc, ac yn 2019-20 byddwn yn cyflwyno'r sylfeini a fydd yn ein helpu i adeiladu ein brand a chyflawni ein gweithgareddau marchnata yn y dyfodol.

7.3 Bydd ein brand yn llywio'r canlynol:

- Ein hamcanion cyfathrebu eraill
- Ein strategaeth profiad cwsmeriaid
- Ein strategaeth farchnata gorfforaethol

7.4 Rydyn ni eisoes wedi gwneud gwaith sylweddol o ran lansio Trafnidiaeth Cymru a datblygu ein brand hyd yma, ac yn 2019-20, byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu ein brand a chyfathrebu ein heffaith hirdymor er mwyn cyrraedd ein nod hirdymor.

7.5 **Gweithredu**

**Adeiladu brand strategol**

Fel sefydliad ifanc, mae'n rhaid inni adeiladu ein brand dwyieithog ar sylfeini cadarn er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'n cynulleidfaoedd allweddol ac yn ennyn eu parch a'u hymddiriedaeth. Yn 2019-20, byddwn yn adeiladu ein dealltwriaeth a'n dirnadaeth o'n cynulleidfaoedd allweddol er mwyn datblygu a gweithredu gweledigaeth/strategaeth brand effeithiol yn ogystal â'n brand digidol/ar-lein yn unol â'n strategaeth profiad cwsmeriaid digidol sydd wrthi'n cael ei datblygu.

Bydd y ddealltwriaeth a'r ddirnadaeth hon hefyd yn llywio ein strategaeth datblygu creadigol ac yn ein helpu i ddatblygu addewid/syniad brand ac ymgyrchoedd effeithiol yn ogystal â hunaniaeth weledol ac asedau brand ategol effeithiol, sy'n creu argraff.

Yn 2019-20, byddwn yn parhau i ddatblygu tôn ein llais a'n negeseuon craidd. Bydd tôn llais unigryw yn fodd i gysylltu â'n cwsmeriaid a sicrhau bod ein holl ddulliau cyfathrebu yn gyson, boed wyneb yn wyneb, mewn print, dros y ffôn, ar y sgrin neu ar-lein.

**Rheoli, cyflwyno a gwarchod brand**

Er mwyn creu brand sy'n creu argraff, gyda phersonoliaeth unigryw a thôn llais cyson, byddwn yn gweithredu dull cryf o reoli brand a gwarchodaeth effeithiol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein canllawiau brand er mwyn sicrhau eu bod yn llywio'n fanwl sut rydyn ni'n defnyddio ein brand. Byddwn yn cyhoeddi fersiynau newydd o'n canllawiau brand bob dwy flynedd.

Byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr ein brand er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn ddefnyddwyr hyddysg gyda dealltwriaeth drylwyr o brif nodweddion ein personoliaeth, ein sylw at fanylder a'n cysondeb.

Nod Trafnidiaeth Cymru yw bod yn sefydliad uchel ei barch o safon byd, a bydd tu mewn a thu allan i'n pencadlys yn ymgorffori ein brand ac yn cefnogi ein huchelgeisiau o fod yn gyflogwr o ddewis yn ogystal â'r gwaith adfywio lleol ac uchelgeisiol ym Mhontypridd a gweithgareddau mewnfuddsoddiad Llywodraeth Cymru.

**Datblygu brand gyda phobl/gweithwyr**

Nod Trafnidiaeth Cymru yw creu brand y mae pobl Cymru'n falch ohono, a'n cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yw conglfeini ein brand. Mae ein pobl/gweithwyr yn gwneud cyfraniad hollbwysig at adeiladu ein brand hefyd, ac yn 2019-20, byddwn yn datblygu ein brand mewnol/pobl ac yn ymgorffori ein gwerthoedd fel sail i ddatblygu diwylliant Trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn cynnwys ein pobl trwy ddatblygu tôn llais fewnol unigryw sy'n ategu tôn llais allanol Trafnidiaeth Cymru ac yn sicrhau bod ein holl gyfathrebiadau mewnol yn glir ac yn gyson.

**Y Gymraeg**

Mae Trafnidiaeth Cymru'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ein brand yn ddwyieithog. Yn 2019/2020, byddwn yn diweddaru ein strategaeth iaith Gymraeg ac yn cefnogi polisïau i wreiddio'r Gymraeg/dwyieithrwydd o fewn diwylliant Trafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn adeiladu ar y safonau a ymgorfforwyd gennym gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, byddwn yn sicrhau bod ein tôn llais fewnol unigryw yn cydnabod y ffaith mai sefydliad dwyieithog yw Trafnidiaeth Cymru, a bod ein holl weithgareddau cyfathrebu yn y ddwy iaith yn glir a chyson.

**Marchnata ac ymgyrchoedd strategol**

Mae Trafnidiaeth Cymru'n bwrw ymlaen â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth y dyfodol, ac yn 2019-20, byddwn yn dechrau adeiladu ein henw da fel sefydliad arloesol o safon byd.

Byddwn yn sicrhau'n lle wrth gyflawni polisi Llywodraeth Cymru yn effeithiol a chyfathrebu ein gwerth strategol yn ogystal â'n heffaith gynyddol ar Gymru a'r economi. Hefyd, byddwn yn datblygu/diweddaru negeseuon allweddol priodol/matrics negeseuon allweddol er mwyn cefnogi ein holl weithgareddau marchnata a chyfathrebu. Byddwn yn teilwra ein negeseuon allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon i'n cynulleidfaoedd allweddol.

Bydd ein Hadroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2018-19 yn ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn, ac yn sbardun i'n gweithgareddau creu enw da strategol.

**Datblygu brand a marchnata Trafnidiaeth Cymru ar gyfer cwsmeriaid trenau**

2019 fydd blwyddyn gyntaf lawn Trafnidiaeth Cymru o weithredu gwasanaethau trenau yng Nghymru a'r gororau, a bydd ein tîm marchnata'r rheilffyrdd yn adeiladu brand Trafnidiaeth Cymru, gan gydnabod natur/gofynion unigryw gwasanaeth trenau Cymru a'r Gororau.

Byddwn yn sefydlu gwarchodaeth effeithiol o'r brand a'i ddatblygiad creadigol hefyd. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod ein hymgyrchoedd cydweithredol yn cyfrannu at ddatblygiad ein brand, gan ystyried gofynion masnachol ac ymgysylltu â defnyddwyr ein timau.

**Datblygu brand y Metro**

Mae datblygu Metro'r De a Metro'r Gogledd yn brosiectau craidd ar gyfer Trafnidiaeth Cymru. Wrth i'r gwaith gychwyn ar adeiladu a sefydlu'r gwasanaethau hyn, bydd angen datblygu'r brand a chynigion cwsmeriaid ar gyfer y gwasanaethau ymhellach o'r sylfaen gadarn sydd eisoes ar waith.

Bydd datblygu brand y Metro yn weithgaredd allweddol ar gyfer 2019/2020, a bydd angen ategu'r gwaith ehangach i ddatblygu brand Trafnidiaeth Cymru. Bydd Trafnidiaeth Cymru'n sicrhau bod gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid dealltwriaeth glir o gyfleoedd a manteision y Metro, yn ogystal â'r daith i greu hynny.

## 8. Ein strategaeth cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â chydweithwyr

### 8.1 Cyfathrebu mewnol

Byddwn yn meithrin perthnasau cadarnhaol a chynhwysol â'n gweithwyr i'w hannog i deimlo'n falch ac yn rhan o deulu Trafnidiaeth Cymru. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddatblygu cyfleoedd cadarnhaol i rannu gwybodaeth a sicrhau bod gan ein gweithwyr a'n partneriaid cyflenwi lais yn y broses o siapio Trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn credu adnoddau a diwylliant er mwyn sicrhau bod perthynas agored, gydweithredol a chlir yn bodoli rhwng gweithwyr a thimau ledled Trafnidiaeth Cymru. Byddwn hefyd yn cefnogi arweiniad gweladwy ac atebol. Bydd hyn yn seiliedig ar fabwysiadu model partneriaeth gymdeithasol, gyda chynrychiolaeth a chydweithrediad gweithwyr gydol ein datblygiad.

### 8.2 Ymgyrchoedd

Byddwn yn datblygu ymgyrchoedd creadigol o fri sydd wedi'u harwain gan amcanion ein cynllun busnes ac sy'n cyd-fynd â nodweddion ein personoliaeth (dynol, gonest, cynhwysol, defnyddiol). Bydd ein hymgyrchoedd wedi'u hadeiladu ar sylfeini cryf a chyson ac yn meithrin ymddiriedaeth ym mrand Trafnidiaeth Cymru a'r gwasanaethau a ddarparwn wrth ddod â brand Trafnidiaeth Cymru yn fyw.

Bydd ein hymgyrchoedd yn cyfleu ystyr Trafnidiaeth Cymru yn ogystal â'n gweledigaeth a'n gwerthoedd gydag uniondeb a hyder. Bydd ein hymgyrchoedd yn cynnwys pwyslais mewnol ac allanol, ac yn llwyddo i gyrraedd ein cynulleidfaoedd allweddol.

Hefyd, byddwn yn sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn dod yn llais blaenllaw mewn ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol allweddol er mwyn dangos ein hymrwymiad i fentrau, elusennau a phrosiectau pwysig y diwydiant, law yn llaw ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Yn fewnol, bydd ein hymgyrchoedd yn ennyn diddordeb ein pobl ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu a sefydlu ein diwylliant mewnol.

8.3 **Gweithredu**

Byddwn yn creu system gyfathrebu fewnol sydd gyda'r 'gorau yn y busnes' ac yn creu gweithlu dibynadwy, sy'n teimlo eu bod wedi eu cynnwys, sy'n cadarnhau dull un tîm 'teulu Trafnidiaeth Cymru'. Bydd gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail yn cyfrannu'n allweddol at feysydd allweddol o'r busnes.

Byddwn yn lansio platfformau newydd a diddorol wedi'u creu a'u rheoli yn unol â safbwyntiau ac anghenion ein staff ledled y sefydliad, a fydd yn adeiladu ar ein henw da o fod yn gyflogwr o ddewis.

Byddwn yn ystyried patrymau gwaith ein gweithwyr, gan gynnwys cydweithwyr ar hyd a lled Cymru mewn lleoliadau amrywiol eraill, wrth gynllunio digwyddiadau i gydweithwyr.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod ein cydweithwyr yn ymddiried yn ein gwasanaeth cyfathrebu mewnol ac yn canfod y gwasanaeth yn werthfawr a defnyddiol i'w rôl ac fel gweithwyr Trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn adeiladu ar ein lefelau ymgysylltu cyfredol, calonogol, i greu cyfres lawn o blatfformau cyfathrebu mewnol Trafnidiaeth Cymru i'n cydweithwyr eu defnyddio.

Trwy ein rhaglen o weithgareddau sy'n cyd-fynd â'r platfformau hyn, byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr a'n rhanddeiliaid allweddol yn gallu cael gafael ar wybodaeth a diweddariadau'n hawdd. Hefyd, byddwn yn sicrhau mai ein gweithwyr a'n rhanddeiliaid yw'r cyntaf i wybod am unrhyw newidiadau, achlysuron lansio a diweddariadau perthnasol.

Bydd y tactegau cyfathrebu mewnol y byddwn yn eu rhoi ar waith, a'n platfformau dewisol, yn cael eu harwain a'u llywio gan fewnbwn ac adborth gweithwyr.

Byddwn yn annog proses gyfathrebu ddwyffordd fel rhan o'n systemau cyfathrebu mewnol, gan annog ein cydweithwyr i gymryd rhan a rhoi adborth.

Bydd ein cyfathrebiadau mewnol yn cynnwys opsiynau amlgyfrwng, gan gynnwys digidol ac wyneb yn wyneb.

Byddwn yn cysoni ein tôn llais fewnol â brand Trafnidiaeth Cymru.

Yn 2019/20, byddwn yn rhoi nifer o ymgyrchoedd ar waith gan gynnwys:

- Cyfathrebu lansio cardiau teithio rhatach Cymru
- Cyfnewidfa bysiau Caerdydd
- Rhaglen Newid Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru
- Trosglwyddo gwasanaeth arlwyo ar drenau i Trafnidiaeth Cymru
- Ymgyrchoedd recriwtio

8.4 **Negeseuon allweddol**

Bydd ein tôn llais fewnol a'n negeseuon allweddol yn atgyfnerthu ac yn ategu ein brand, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Dyma ein negeseuon allweddol:

- Rydyn ni'n ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi
- Rydyn ni'n ymrwymo i greu dull un 'teulu Trafnidiaeth Cymru'
- Rydyn ni'n ymrwymo i gadw Cymru i symud
- Rydyn ni'n ymrwymo i gyflawni ein gwerthoedd

Yn unol â'n gwerthoedd, hoffem i weithwyr deimlo fel a ganlyn:

- Yn gyfrifol
- Yn falch
- Wedi'u grymuso
- Eisiau cymryd rhan
- Wedi'i clywed
- Wedi'u cynnwys

## 9. Ein strategaeth cysylltiadau'r cyfryngau

9.1 Byddwn yn creu brand dibynadwy a chyfarwydd ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n adlewyrchu ein personoliaeth fel sefydliad dynol, gonest, cynhwysol a defnyddiol. Byddwn yn adlewyrchu ein parodrwydd a'n cynllun i drawsnewid gwasanaethau.

9.2 Byddwn yn cynyddu'r sylw cadarnhaol yn y cyfryngau er mwyn helpu i gyfleu newidiadau a datblygu strwythur storïol clir a thôn llais y gall pobl uniaethu â nhw, eu deall, ac ymfalchïo ynddyn nhw. Byddwn yn adeiladu ac yn datblygu perthnasau cryf a chadarn gyda phartneriaid yn y diwydiant, rhanddeiliaid a newyddiadurwyr.

9.3 **Gweithredu**

Trwy greu cynnwys ac ymgysylltu â'r cyfryngau:

- Byddwn yn creu brand dibynadwy a chyfarwydd sy'n adlewyrchu ein gonestrwydd, ein tryloywder a'n parodrwydd i drawsnewid gwasanaethau cyn gynted â phosib – I Bobol, I Gymuned, I Gymru
- Byddwn yn datblygu cynllun cysylltiadau cyfryngau clir sy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau/cyflawniadau allweddol Trafnidiaeth Cymru sy'n sicrhau ein bod ni'n cynnal ymgyrchoedd yn y cyfryngau i gyfathrebu a chefnogi'r llwyddiannau hyn
- Byddwn yn cynyddu'r sylw cadarnhaol yn y cyfryngau ac yn datblygu strwythur storïol clir a thôn llais y gall pobl uniaethu â nhw, eu deall, ac ymfalchïo ynddyn nhw
- Byddwn yn creu ac yn datblygu perthnasau clir â phartneriaid yn y diwydiant, rhanddeiliaid a newyddiadurwyr dylanwadol (lleol, cenedlaethol a'r fasnach reilffyrdd), gan ymateb i ymholiadau gohebwyr o fewn yr amserlenni gofynnol lle bo hynny'n ymarferol bosib
- Cydweithio â'n partneriaid yn y diwydiant, mynychu cyfarfodydd rheolaidd er mwyn sicrhau negeseuon cyson a chreu darlun cydgysylltiedig o'r diwydiant trafnidiaeth yng Nghymru
- Byddwn yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid gwleidyddol gan gynnwys trefnu ymweliadau gweinidogion er mwyn manteisio i'r eithaf ar sylw cadarnhaol yn y cyfryngau a phwysleisio pa mor berthnasol ydym i gyfrifoldebau'r llywodraeth
- Byddwn yn datblygu strwythur blaenoriaethu negeseuon clir a fydd wrth wraidd ein holl gynnwys

9.4 Byddwn yn creu, datblygu a chyhoeddi cynnwys:

- Perthnasol i gyfrifoldebau Trafnidiaeth Cymru
- Perthnasol i gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru
- Gwrthrychol ac esboniadol
- Diddorol a llawn gwybodaeth
- Bob amser yn cyfiawnhau'r defnydd o arian cyhoeddus
- Gonest a thryloyw
- Gwleidyddol niwtral

Byddwn yn dangos arweiniad amlwg ac atebol trwy sicrhau bod llefarwyr perthnasol Trafnidiaeth Cymru yn cynrychioli ein brand wrth gyfathrebu â'r cyfryngau.

## 10. Ein strategaeth cysylltiadau'r llywodraeth a materion cyhoeddus

10.1 Byddwn yn hybu enw da Trafnidiaeth Cymru ac yn meithrin ymddiriedaeth ym mrand Trafnidiaeth Cymru gyda'n cynulleidfa ehangach: Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol ehangach, Aelodau Seneddol (AS) a chynrychiolwyr etholedig yn fwy eang. Mae cynrychiolwyr etholedig wedi'u penodi gan rai sy'n defnyddio ac wedi'u heffeithio gan ein gweithgareddau, felly mae'n hanfodol ein bod ni'n cydweithio â phawb.

10.2 Byddwn yn gwella ein partneriaethau â Gweinidogion Llywodraeth Cymru trwy sicrhau ein bod yn cyflawni eu hamcanion trwy gyfathrebu, cefnogi ac ymgysylltu'n effeithiol. Byddwn yn helpu Llywodraeth Cymru i gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau Cynulliad (AC) ac ASau Cymru ar bynciau gweithredol sy'n berthnasol i Trafnidiaeth Cymru a'n partneriaid cyflenwi.

10.3 Byddwn yn ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ACau ac ASau i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo enw da Trafnidiaeth Cymru
- Magu hyder Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol ehangach ac ASau ym mrand Trafnidiaeth Cymru
- Gwella ein cysylltiadau partneriaeth â Gweinidogion, gan sicrhau eu bod nhw'n teimlo'n rhan o daith drawsnewidiol Trafnidiaeth Cymru
- Sicrhau eu bod nhw'n deall bod gan Trafnidiaeth Cymru gynlluniau uchelgeisiol y gellir eu cyflawni, a'n bod ni'n eu cyflwyno
- Sicrhau eu bod nhw'n deall bod Trafnidiaeth Cymru ar gael ac yma i helpu

10.4 **Gweithredu**

Byddwn yn meithrin dealltwriaeth a dirnadaeth o'n cynulleidfaoedd i dargedu ein systemau cyfathrebu, gan gydnabod lefelau gwybodaeth ein cynulleidfaoedd a'u diddordeb mewn materion trafnidiaeth, a sicrhau ein bod ni'n cynnig opsiynau gwahanol iddyn nhw o ran sut maen nhw'n ymwneud â Trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn cynnal arolwg o holl ACau ac ASau Cymru a'r gororau i ganfod faint o ddealltwriaeth sydd ganddyn nhw o wasanaethau Trafnidiaeth Cymru ac i gael eu barn.

Byddwn yn defnyddio cyfryngau cyfathrebu amrywiol i ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd:

- Cyfathrebu uniongyrchol, gan gynnwys ymateb i ymholiadau etholwyr a mynychu cyfarfodydd

- Cylchlythyron sy’n crynhoi ein newyddion a’r digwyddiadau sydd ar y gweill
- Sesiynau galw heibio i ACau yn y Senedd ac ASau yn San Steffan
- Briffiau etholaethol, gan gynnwys cynnwys print ac ar-lein o’r radd flaenaf i ddiweddaru, hysbysu a darparu gwybodaeth ddefnyddiol i etholwyr.

# 11. Ein strategaeth ymgysylltu cymunedol

11.1 Ni ddylai ein gwasanaethau fod o fudd i'r teithwyr sy'n eu defnyddio yn unig, dylent hefyd gael effaith gadarnhaol ar yr economïau a'r cymunedau lleol rydyn ni'n eu gwasanaethu, a dim ond trwy gydweithio o fewn y cymunedau hynny y gallwn sicrhau hyn. O'r herwydd, rydyn ni wedi lansio ein Gweledigaeth Rheilffyrdd Cymunedol, a luniwyd ar y cyd â'n partneriaethau rheilffyrdd cymunedol a grwpiau cymuned eraill, sy'n rhoi amlinelliad manwl o'n holl ymrwymiadau ar gyfer 2019 a thu hwnt.

11.2 **Gweithredu**

Byddwn yn creu panel ymgynghori er mwyn craffu ar y broses o ddarparu ein hymrwymiadau, a llywio'r gwaith o ddatblygu'r sefydliad. Byddwn yn ategu hyn trwy ddatblygu fframwaith cynghori ehangach sy'n cynnig llwybrau ymgysylltu clir a hwylus i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a grwpiau buddiant.

Fel rhan o'n proses gynghori, byddwn hefyd yn ystyried sut i gynnwys ein strwythurau ymgysylltu cyfredol er mwyn sicrhau ein bod ni'n creu cyfleoedd ymgysylltu clir a thryloyw ar draws ein cylch gwaith cyfredol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

14 Awst 2019

Annwyl Julie

Ar 11 Gorffennaf cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cymru ei sesiwn graffu blynyddol gyntaf ar waith Cadeirydd Comisiynydd Seilwaith Cenedlaethol Cymru, John Lloyd Jones.

Efallai y byddwch yn cofio'r adroddiad a gyhoeddodd y Pwyllgor ym mis Ionawr 2017 ynghylch sefydlu'r Comisiwn. Nododd yr adroddiad y byddai sefydlu corff gyda chylch gwaith a chyfrifoldeb y Comisiwn yn her sylweddol.

Yn dilyn y sesiwn hon nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig bod y Comisiwn yn cwrdd â'r her honno ar hyn o bryd. Rwy'n ysgrifennu i rannu pryderon ynghylch cyfeiriad strategol a chynnydd, tryloywder a hygyrchedd y cyhoedd, a lefel adnoddau'r Comisiwn. Fel y nodwyd yn yr adroddiad mae'r her yn un sylweddol ond mae'n gyraeddadwy, os eir i'r afael â'r materion hyn.

**Cyfeiriad strategol a chynnydd**
Yn dilyn ein sesiwn graffu roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch cyfeiriad strategol y Comisiwn. Er ein bod yn falch o weld comisiynwyr wedi'u penodi, ymddengys mai ychydig iawn arall sydd wedi'i gynhyrchu na'i gyflawni.

Yn ein gwaith craffu cyn penodi, nododd y Cadeirydd uchelgais i gyhoeddi papur cwmpasu o fewn tri mis. Cyfaddefodd y Cadeirydd, ac mae'r Pwyllgor yn derbyn, fod hon yn amserlen optimistaidd. Fodd bynnag, ymddengys nawr y bydd yn fis Tachwedd 2019 cyn inni weld unrhyw gyhoeddiad gan y Comisiwn. Yna mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi papur cyflwr y genedl erbyn 2022, bedair blynedd ar ôl creu'r Comisiwn. Teimlai'r Pwyllgor fod diffyg uchelgais yn hyn o beth.

Cydnabu'r Cadeirydd a Ceri Doyle, y comisiynydd a ddaeth gydag ef, gylch gwaith eang iawn y Comisiwn. Mae cylch gwaith mor eang yn ei gwneud hi'n hanfodol bod y Cadeirydd yn nodi uchelgais strategol gref i'r sefydliad ac yn ei chadw ar y trywydd iawn.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor yn hyderus bod yr uchelgais yn cael ei chyflawni. Mae'r Pwyllgor yn aros yn eiddgar am gyhoeddi'r adroddiad blynyddol ym mis Tachwedd a manylion am y cynnydd a'r cynlluniau y bydd yn eu darparu.

**Tryloywder a hygyrchedd y cyhoedd**
Cyn y cyfarfod roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd y Comisiwn wedi cyhoeddi cylch gorchwyl na chofrestr o fuddiannau comisiynwyr. Yn ystod y sesiwn rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y dogfennau hyn yn bodoli. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyhoedd yn cael y dogfennau hyn pe byddent yn gofyn amdanynt. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw hyn yn ddigon da, ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar y cyhoedd i ofyn am y wybodaeth hon - dylai fod ar gael am ddim ar wefan y Comisiwn.

Roedd gan y Pwyllgor bryderon ehangach hefyd ynghylch hygyrchedd y Comisiwn a'i wefan. Ar hyn o bryd mae'r wefan yn cael ei chynnal fel is-adran o wefan Llywodraeth Cymru ac ychydig iawn o gynnwys sydd arni. Cafodd y Pwyllgor ei synnu, a’i siomi, gan y diffyg brys ymddangosiadol gan y Comisiwn ynghylch gosod dogfennau allweddol fel cofrestr o fuddiannau ar-lein a datblygu cynnwys sy’n wynebu’r cyhoedd ar gyfer y wefan sy’n egluro rôl, nodau ac amcanion y Comisiwn.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i'r Cadeirydd sicrhau bod y Comisiwn yn dryloyw ac yn hygyrch i'r cyhoedd. Man cychwyn ar gyfer hyn fyddai creu gwefan annibynnol sy'n cynnwys o leiaf y cylch gorchwyl, y gofrestr o fuddiannau comisiynwyr a blaenraglen waith.

**Adnoddau**
Ymddengys yn glir bod y materion a nodwyd wedi'u gwaethygu gan ddiffyg staff. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod dau aelod newydd o staff, gan gynnwys arbenigwr cyfathrebu, wedi'u penodi yn ystod y mis diwethaf. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl i'r penodiadau hyn gael eu gwneud yn gynharach o lawer.

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y staff newydd yn helpu'r Comisiwn i ddod yn fwy tryloyw a chyflymu ei raglen waith.

Wedi dweud hynny dylai'r penodiadau hyn fod wedi cael eu gwneud yn gynharach o lawer. Wrth i'r Comisiwn ddatblygu bydd angen recriwtio mwy o staff, yn enwedig ymchwilwyr. Gobaith y Pwyllgor yw y byddwch chi, fel y gweinidog sy'n gyfrifol, a'r Cadeirydd yn sicrhau bod gan y Comisiwn adnoddau priodol yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni ei raglen waith ar frys.

Yn ein hadroddiad cychwynnol ar sefydlu'r Comisiwn, pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd annibyniaeth y corff rhag dylanwad y llywodraeth. Ar hyn o bryd mae staff y Comisiwn yn cael eu rheoli gan weision sifil Llywodraeth Cymru. Er bod Adrian Davies, swyddog y Comisiwn a aeth gyda'r Cadeirydd i'r sesiwn, wedi sicrhau'r Pwyllgor bod ei reolwr llinell yn Llywodraeth Cymru yn deall pwysigrwydd annibyniaeth ei rôl ac yn cefnogi

hyn, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r strwythur rheoli llinell hwn achosi gwrthdaro yn y dyfodol pe na bai'r ddealltwriaeth honno yno.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd yn yr opsiynau/llwybrau i staff y Comisiwn fynegi pryderon ynghylch gweithrediad neu strwythurau'r Comisiwn. Ymddengys mai'r llwybr amlwg fyddai gyda'u rheolwr llinell Llywodraeth Cymru ond unwaith eto byddai hyn yn creu gwrthdaro o ran buddiannau.

Er mwyn cyflawni ei ddiben rhaid i'r Comisiwn fod yn annibynnol ac yn rhydd o ddylanwad gwleidyddol. Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn gweithredu'n iawn mae angen llwybr annibynnol ar staff ar gyfer pryderon. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r gofynion hyn yn cael eu bodloni ar hyn o bryd ac y gallai hyn amharu ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Comisiwn.

**Y camau nesaf**
Mae'r Pwyllgor wedi nodi o'r blaen bod angen cadeirydd ar gorff sydd â chylch gwaith tymor hir iawn y mae ei benodiad yn mynd y tu hwnt i flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich gwaith i benodi Cadeirydd hirdymor. Gan fod proses recriwtio ar fin cychwyn, teimlai'r Pwyllgor y byddai'n ddoeth cofnodi rhai o'r rhinweddau y byddem yn disgwyl eu gweld yn y sawl a benodir yn yr hirdymor.

Yn ystod y sesiwn graffu cyn penodi nesaf, bydd y Pwyllgor yn disgwyl i'r ymgeisydd a ffefrir allu dangos:

- Dealltwriaeth glir o egwyddorion, nodau ac amcanion economaidd Llywodraeth Cymru.
- Dealltwriaeth gadarn o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Hanes o ddarparu atebion arloesol a chreadigol i broblemau cymhleth mewn modd deinamig.
- Bydd gwybodaeth am seilwaith Cymru, cyfleoedd i ddatblygu a'r cyfyngiadau y mae'n eu gosod/y bydd diffyg datblygiad yn eu gosod ar Gymru.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa o argymhellion allweddol y Pwyllgor o'r adroddiad “Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru” a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017:

- Cred y Pwyllgor y byddai buddion gwirioneddol i sefydlu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar sail statudol. Er nad oes angen i hyn oedi ei sefydlu, rydym yn glir, os caiff ei sefydlu ar sail anstatudol, y dylid rhagdybio y bydd deddfwriaeth yn dilyn ar adeg addas.
- Mae'r Pwyllgor yn deall y dymuniad i beidio â gorlwytho corff newydd, ond credwn y dylid ehangu'r cylch gorchwyl arfaethedig i gynnwys y cyflenwad o dir ar gyfer datblygiadau tai sy'n arwyddocaol yn strategol a seilwaith ategol cysylltiedig ynghyd â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol.

- Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw trawsnewid meddylfryd cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Cred y Pwyllgor y dylai'r cyfrifoldebau hyn gael eu cynnwys yn y sefydliad o'r cychwyn cyntaf, i hyrwyddo cydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill, ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac annibyniaeth ar y Llywodraeth.

Mae gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru y dasg ddifrifol a hanfodol o ddatblygu'r seilwaith a fydd yn sail i economi Cymru a chefnogi poblogaeth Cymru yn y tymor canolig i'r tymor hir. Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei dasg bydd y Pwyllgor yn trafod materion yr ymdrinnir â hwy yn y llythyr hwn a'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad 2017 gyda'r ymgeisydd o'ch dewis yn ei sesiwn graffu cyn penodi.

Yn gywir,

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/3039/19

Russell George AC
Aelod Cynulliad dros Sir Drefaldwyn
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Government.Committee.Business@gov.wales

21 Awst 2019

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf ynghylch Fframweithiau Polisi Cyffredin y DU a cais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth i gynorthwyo gyda chynllunio eu gwaith craffu yn ystod tymor yr hydref. Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth ar y meysydd y mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw atynt yn atodiad 1 sydd wedi'i atodi.

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

***Y camau sydd wedi'u cymryd i ddatblygu fframweithiau ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor, ac i ba raddau y mae'r fframweithiau hynny wedi'u datblygu.***

Mae swyddogion polisi wedi bod yn trafod â'u cydweithwyr o fewn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ers mis Tachwedd 2017.

Hyd yn hyn mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar sefydlu ble y bydd angen Fframweithiau Cyffredin a datblygu man cychwyn ar y math o Fframweithiau Cyffredin fydd eu hangen. Cafodd datblygiad y gwaith hwn ei nodi'n fwyaf diweddar yn Nadansoddiad Fframwaith Diwygiedig Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.

Mae nifer o feysydd polisi wedi'u nodi fel meysydd sydd angen deddfwriaeth o bosibl i fod yn sail i'r Fframwaith ac sydd felly wedi'u nodi fel meysydd sydd angen blaenoriaeth.

Mae timau polisi ar hyn o bryd yn y broses o egluro cwmpas pob Fframwaith Cyffredin posibl gan gynnwys a oes angen deddfwriaeth ai peidio, gan nodi manylion gweithredol perthnasol ac edrych ar drefniadau llywodraethu arfaethedig. Caiff canlyniadau y gwaith hwn ei amlinellu yng Nghytundebau Amlinellol y Fframwaith.

***Y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau***

Gwnaethpwyd penderfyniadau ar a fyddai angen Fframwaith Gyffredin mewn maes polisi penodol ar sail trafodaethau rhwng swyddogion polisi. Roedd y trafodaethau hyn yn ystyried:

- effaith a thebygolrwydd unrhyw raniad o fewn y maes hwn;
- swmp y gwaith fyddai'r Fframwaith yn ei ystyried; a
- manteision cydweithredu ffurfiol.

Mae datblygu Fframweithiau yn broses sy'n digwydd yn aml ac felly nid yw yr un o'r penderfyniadau hyn yn derfynol. Mewn rhai achosion, fel rhan o'r gwaith cwmpasu presennol, mae timau polisi wedi dod i'r casgliad y byddai cydweithredu anffurfiol yn ddigonol ar gyfer maes penodol ble yr oedd Fframwaith Cyffredin wedi'i nodi yn y gorffennol. Mewn meysydd eraill, mae'r meysydd sydd wedi'u nodi fel meysydd sydd angen deddfwriaeth bellach yn debygol o gael eu datblygu heb ddeddfwriaeth.

***Strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi neu yn cael eu sefydlu, e.e. Fforymau gweinidogol ac ati***

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ym mis Hydref 2017 ac mae'n cadw llygad ar y Rhaglen Fframweithiau.

Rwyf hefyd yn bresennol yn y cyfarfod pedairochrog Gweinidogol gyda Gweinidogion BEIS i drafod materion Brexit sy'n gysylltiedig â busnes a diwydiant. Wrth i fframweithiau ddatblygu fy nisgwyliadau yw y bydd y cyfarfod hwn yn rhoi fforwm i Weinidogion ledled y DU a gall drafod fframweithiau a heriau perthnasol. Rwyf hefyd wedi cysylltu ag Andrea Leadsom AS, yn gofyn am gyfarfod ym mis Medi rhyngddi hi, Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r Alban a'r rhai sy'n cynrychioli Gweinyddiaethau Gogledd Iwerddon i drafod y trefniadau hyn ac eraill ar gyfer cydweithio rhwng llywodraethau.

***Pa allbynnau terfynol sy'n cael eu rhagweld o'r fframweithiau, yn ddeddfwriaethaol ac anneddfwriaethol.***

Bydd y fframweithiau yn datblygu system rynglywodraethol ar gyfer cydweithio rhwng y bedair Weinyddiaeth. Bydd y systemau hyn yn cynnig gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyfathrebu ac fel a grybwyllwyd uchod, bydd yn cyd-fynd â'r dulliau presennol sydd wedi'u sefydlu ar lefel portffolio. Mae penderfynu ar ba elfennau fydd yn galw am ddull deddfwriaethol neu anneddwriaethol o weithio yn rhan o'r gwaith cwmpasu cyfredol sy'n cael ei gynnal gan dimau polisi.

Ar hyn o bryd mae dau fframwaith o fewn fy mhortffolio (Systemau Trafnidiaeth Deallus a Gwasanaethau). Mae ystyried y fframweithiau hyn y faterion parhaus i dimau polisi o Lywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig gan edrych ar gwmpas posibl y Fframwaith yn y maes hwn a'r angen am unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer y Fframwaith.

***Sut y mae'r fframwaith yn cysylltu â gweithgarwch arfaethedig Llywodraeth Cymru, yn ddeddfwriaethol ac anneddfwriaethol (gan gynnwys pan fydd fframweithiau yn croesi i bortffolios eraill).***

Mae Fframweithiau Cyffredin yn cael eu datblygu ar yr un pryd â thrafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Gweinyddiaethau eraill y DU ar nifer o faterion pwysig ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys paratoadau Dim Cytundeb sy'n gysylltiedig â Phartneriaeth Economaidd Dyfodol y DU-UE.

Bydd angen i'r gwaith hwn adlewyrchu hefyd y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru wrth amlinellu nifer o gynigion polisi wedi ymadael â'r UE.

Felly, bydd angen i Fframweithiau a chyrff neu strwythurau cysylltiedig fod yn hyblyg i benderfyniadau yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r UE a thrafodaethau rhyngwladol a gallu Llywodraeth Cymru i weithredu a chyflawni polisïau i Gymru mewn meysydd datganoledig. Bydd angen iddynt ddarparu platfform ar gyfer y trafodaethau hyn mewn ffordd sy'n sicrhau tegwch o ran cyfraniadau, gwneud penderfyniadau a gwarchod cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

***Sut y bydd pob maes fframwaith yn cael ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.***

Cafodd y broses o ddatblygu Fframweithiau Cyffredin eu sefydlu fel rhaglen waith hirdymor ac mae disgwyl iddynt gael eu rhoi ar waith erbyn diwedd y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020. Os na fydd cytundeb, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhaglen Fframweithiau gael ei blaenoriaethu i sicrhau bod trefniadau wedi'u hystyried yn iawn ac y bu craffu digonol arnynt, a'u bod yn cael eu sefydlu cyn gynted â phosibl.

Fel mesur dros dro, mae fy adran yn cydweithio â Gweinyddiaethau eraill y DU i nodi a sefydlu trefniadau llywodraethu o fewn meysydd polisi penodol ar lefel swyddogol os nad fydd cytundeb. Bydd y trefniadau hyn yn cefnogi y broses o gyflawni materion technegol a gweithredol fydd eu hangen o'r Diwrnod Cyntaf ble y byddai angen cydweithredu ledled y DU a chysylltiad â strwythurau ar draws portffolios sydd eisoes wedi'u sefydlu. Mae elfennau o'r gwaith hwn yn gorgyffwrdd â meysydd Fframwaith Cyffredin ac mae'n bosibl eu bod wedi eu tynnu o'r trafodaethau ar y Fframwaith hyd yma. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau interim hyn yn gosod unrhyw gynsail i ddatblygu Fframweithiau yn yr hirdymor.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

10 Gorffennaf 2019

Annwyl Ken,

**Fframweithiau polisi cyffredin y DU**

Yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd cyfarfod ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau i drafod datblygiad fframweithiau polisi cyffredin ar draws y DU sy'n deillio o broses Brexit. Cytunodd y Cadeiryddion i ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol i ofyn am ragor o wybodaeth i gynorthwyo â'r gwaith craffu pwysig ar y camau a gymerir.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech roi diweddariad i'r Pwyllgor yn cynnwys manylion:

- pa gamau sydd wedi eu cymryd i ddatblygu fframweithiau o fewn eich meysydd portffolio, a lle y mae datblygiad y fframweithiau arni;
- y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau;
- strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi cael eu sefydlu, neu sydd wrthi'n cael eu datblygu e.e. fforymau Gweinidogol ac ati;
- pa ganlyniad(au) a ddisgwylir o'r fframweithiau, o safbwynt deddfwriaethol ac anneddfwriaethol;
- sut y mae'r fframweithiau yn cysylltu â chamau cyfredol a chamau arfaethedig Llywodraeth Cymru, o safbwynt deddfwriaethol ac anneddfwriaethol (gan gynnwys lle bo fframweithiau yn gorgyffwrdd â phortffolios eraill); a
- sut y bydd maes pob fframwaith yn cael ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

I helpu'r Pwyllgor i gynllunio ei waith craffu yn gynnar yn nhymor yr hydref, byddai'n ddefnyddiol pe gallem dderbyn eich ymateb erbyn 1 Medi.

Cofion cynnes,



Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon